



Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 18FED TACHWEDD, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 10 Tachwedd 2021)

# **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

## **AELODAETH (19)**

### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans  
Berwyn Parry Jones  
Paul John Rowlinson  
Sedd Wag

Aled Wyn Jones  
Peredur Jenkins  
Gethin Glyn Williams

Huw Gruffydd Wyn Jones  
W. Gareth Roberts  
E. Selwyn Griffiths

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes  
John Pughe Roberts  
Richard Medwyn Hughes

Dewi Wyn Roberts  
Angela Russell

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Sedd Wag

### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd Sion W. Jones

### **Aelod Lleyg (1)**

Mrs Sharon Warnes

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryn ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid derbyn cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 14 Hydref 2021 fel rhai cywir

## 5. STRATEGAETH CYLLIDEB 2022/23

13 - 20

I ystyried y wybodaeth, risgiau sy'n deillio o'r strategaeth, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2021-22 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

21 - 31

I ystyried yr adroddiad

## 7. ASESAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL

32 - 52

I ystyried yr adroddiad ynghyd ag ymatebion Cyngor Gwynedd i'r argymhellion

## 8. ARCHWILIO CYMRU - RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN

53 - 64

I dderbyn diweddariad ar raglen waith Chwarter 2 Archwilio Cymru

## 9. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

65 - 73

I ystyried yr adroddiad a chytuno ar yr argymhelliad ynglŷn a maint y Pwyllgor i'r dyfodol.

---

## PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 14-10-21

---

### Presenoldeb:

**Cynghorwyr:** Cadeirydd: Cynghorydd John Pughe Roberts  
Is-gadeirydd: Cynghorydd R Medwyn Hughes

Alwyn Gruffydd, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn P Jones, Huw W Jones, Dewi Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell a Gethin Glyn Williams

Sharon Warnes (Aelod Lleyg)

### Swyddogion:

Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Siân Pugh (Cyfrifydd Grŵp - Corfforaethol a Phrosiectau), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Aron John (Hyfforddai Proffesiynol Cyllid), Caleb Elis (Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Ian Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol), Alun Lloyd Williams (Uwch Swyddog Dysgu a Datblygu), Arwel Evans (Rheolwr Caffael), Dewi W Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

### Eraill a wahoddwyd:

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)  
Alan Hughes (Archwilio Cymru)  
Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)  
Derwyn Owen (Archwilio Cymru)  
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu)

#### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled LI Evans, Selwyn Griffiths, John Brynmor Hughes a Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol)

#### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

#### 3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi.

#### 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15 Gorffennaf 2021 fel rhai cywir

#### 5. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 (ôl-archwiliad), adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru a'r

Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru), cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr yn electroneg.

Adroddwyd bod mân addasiadau i'r un a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin 2021 ac amlygwyd y canlynol:

- Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar – gostyngiad o £2.9 miliwn yng ngwerth yr asedau, yn dilyn cywiriad i ffigyrau gwreiddiol y prisiwr
- addasiad rhwng cyfrifon yn ymwneud yn bennaf â phrasiad 35 o ysgolion o ganlyniad i broblemau mewnbynnu categorïau technegol angen ei gywiro. Nid oedd yr addasiad wedi effeithio gwerth yr asedau ond yn hytrach wedi golygu gostyngiad o £20.7 miliwn yn y ffigyrau ailbriso ac yr amhariad.
- Ychwanegu mwy o fanylion am y prif ymrwymïadau cyfalaf sydd yn cynnwys Ysgol y Faenol, Cymerau, Glancegin ac Uned Dementia Hafod Mawddach.
- Nodyn 19 - Arian a Chyfwertioedd arian - newid i driniaeth arian cydbwyllgor GwE, sydd bellach yn cael ei ddangos yng nghyfrifon Gwynedd - hyn wedi arwain at leihau'r gorddrafft banc o £5.96 miliwn a chynyddu'r credydwr tymor byr yn Nodyn 21 o'r un swm. O ganlyniad, goblygiadau ar y prif ddatganiadau sef y Fantolen, Datganiad symudiad mewn reserfau a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Ychwanegu ffigyrau i'r naratif mewn nodiadau:
  - Nodyn 28 – Gwasanaethau Asiantaeth – ychwanegu manylion am 2 grant addysg (nid yw'n golygu unrhyw addasiadau i'r ffigyrau yn y cyfrifon). £33.4 miliwn Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol a £20 miliwn Grant Datblygu Disgyblion.
  - Nodyn 39 - Ymrwymïadau Dibynnol ('Contingent Liabilities') - dim effaith ar ffigyrau'r datganiad ond yn hytrach yn cynyddu'r ffigwr sydd wedi ei gynnwys yn y frawddeg o £450k.

Cadarnhawyd bod archwiliad cyfrifon Harbyrau Gwynedd wedi ei gwblhau ac nad oedd angen eu hail gyflwyno i'r Pwyllgor.

Gwahoddwyd Derwyn Owen (Archwilio Cymru) i gyflwyno adroddiad 'ISA260'. Nodwyd bod yr archwilwyr yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamedod ar gyfrifon eleni, unwaith y byddai'r Llythyr Cynrychiolaeth wedi ei arwyddo. Manylwyd ar:-

- Effeithiau Covid-19 ar archwiliad eleni
- Barn Archwilio Arfaethedig
- Materion arwyddocaol yn codi o'r archwiliad, gan gynnwys camddatganiadau nas cywirwyd a materion arwyddocaol eraill
- Argymhellion

Diolchwyd i'r Cyfrifwyr am eu cydweithrediad a'u gwaith trylwyr. Derbyniwyd yr angen i wirio gwaith priswyr i'r dyfodol.

Llongyfarchwyd yr Adran Cyllid ar y gwaith ac am gyflwyno'r wybodaeth mewn modd dealladwy

## PENDERFYNWYD

- **Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd**
- **Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2020/21 (ôl-archwiliad)**
- **Cadeirydd y Pwyllgor ynghyd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg**

## 6. CYLLIDEB REFENIW 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid y Cynghorydd Ioan Thomas yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet ar 12 Hydref, 2021 a sylwebu fel bo angen.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun i'r adroddiad drwy nodi:-

- Bod effaith ariannol sylweddol argyfwng covid yn parhau yn 2021/22 gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholledion incwm (cyfwerth dros £20 miliwn yn 2020/21) gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Er llunio rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 drwy ddileu, llithro ac ail broffilio' cynlluniau arbedion yn Ionawr 2021, bod oediad mewn gwreiddu arbedion yn parhau mewn rhai meysydd, gydag oediad o ganlyniad i'r argyfwng yn ffactor amlwg. Nodwyd fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, tra bod gwelliant nodedig yn rhagolygon yr Adran Plant a Theuluoedd.
- Bod ceisiadau i adhawlio yn cael eu gwneud yn fisol i Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru
- Bod y Cabinet wedi derbyn yr holl argymhellion a nodwyd yn adroddiad i'r Cabinet 12-10-21

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Cyllid at dalfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau gan amlygu'r meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol.

- Rhagwelwyd gorwariant o £1.4miliwn yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda methiant i gyflawni arbedion gwerth £855k yn ffactor amlwg o'r gorwariant. Mynegwyd fod covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr adran a bod gwerth £1.3miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau ychwanegol am y cyfnod.
- Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddyrannu £1.8miliwn o arian ychwanegol i'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghylch cyllidebu 2021/22 ynghyd â dileu gwerth £1.1miliwn o gynlluniau arbedion, amlygwyd fod y rhagolygon ar hyn o bryd yn addawol iawn i'r adran.
- Mynegwyd fod problemau gorwariant yn y maes casglu a gwaredu gwastraff yn parhau yn yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol. Nodwyd fod trafferthion gwreiddu arbedion mewn nifer o feysydd gwerth £673k a bod yr adran wedi wynebu costau ychwanegol yn ymateb i covid. Er hynny, ategwyd bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi digolledu a bod disgwyliad y byddant yn parhau i ddigolledu am weddill y flwyddyn.
- Yn Gorfforaethol nodwyd fod rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 yn gyfrifol am gynhyrchu treth ychwanegol ac yn cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cyngor.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod covid yn ymddangos yn cael y bai ar bopeth - a ydym yn edrych ar y darlun yn gywir? yn hollol sicr bod rheolaeth adrannau ar ben ei gwaith? ac nad yw'r sefyllfa yn gwegian oherwydd gweithio o adre?
- Beth yw'r risg i'r Llywodraeth wrthod ariannu pellach petai covid yn ymddangos fel esgus o fewn adrannau?
- Gwynedd yn gyrchfan o drigolion wedi ymddeol ond sydd heb gyfrannu i'r ardal - yn her ddifrifol yn enwedig i gostau Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant?

- Gorwariant Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theulueodd ddim yn newydd - gorwariant yn bodoli cyn covid gyda'r sefyllfa yn debygol o waethygu oherwydd covid - a oes angen rhoi mwy o bwysau ar y llywodraeth a cheisio mwy o gyllid?

Mewn ymateb i'r sylwadau nododd y Pennaeth Cyllid bod:

- Y Tîm Rheoli Corfforaethol yn adolygu lefel parhad gwasanaeth bob pythefnos ac yn monitro lefelau pryderon ariannol oherwydd bod pryderon yn parhau, mwy o broblemau yn codi a cheisiadau am gymorth o adran i adran oherwydd pwysau'r argyfwng. Nododd bod yr adroddiad yn galonogol ar y cyfan gyda'r sefyllfa yn gymharol foddhaol gyda mandad gan y Cabinet i'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid fynd at wraidd problemau'r ddwy adran i geisio datrysiaid - cytunodd bod angen cymryd golwg ar y sefyllfa a'r methiant i gyflawni'r arbedion
- Gwybodaeth am ddyraniad y grant sylfaenol 2022/23 i'w dderbyn ym mis Rhagfyr 2021 gyda sefyllfa'r Cyngor yn ddigon cadarn i bontio cynlluniau tymor byr petai'r grant yn llai na'r diswyliad. Ategwyd bod cyfle i bwysu a mesur y sefyllfa ac wrth sefydlu Cyngor Newydd ym mis Mai 2022 bydd yn gyfle da i ail drafod yr arbedion. Nodwyd bod y grant a dderbynnir o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru yn sylweddol ac ar hyn o bryd yn ariannu digartrefedd, gofal a phrydau ysgol am ddim. Amlygwyd bod Gweinidog perthnasol Llywodraeth Cymru, Rebeca Evans, wedi datgan bydd dim Cronfa Caledi o Ebrill 2022 ymlaen, oni bai bod amgylchiadau'n newid. Nodwyd fod cynrychiolwyr awdurdodau lleol wedi cyfleu pryderon a risgiau i'r Llywodraeth, ac os bydd y gronfa yn dod i ben bydd angen ychwanegiad priodol i setliad grant 2022/23.
- Efen cydnabyddiaeth yn y grant i niferoedd pobl hŷn ynghyd a nifer disgyblion. Bod penderfyniad y Cyngor i godi premiwm treth gyngor o 100% ar ail gartrefi yn brawf bod y Cyngor yn gwneud y mwyaf posib i gael cyfraniad costau
- Sefydlogrwydd bellach yng ngwariant y Gwasanaeth Plant drwy sicrhau cyllideb gywir a bidiau grant. Y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol i dderbyn sylw pellach dros y misoedd nesaf. Nodwyd bod amcangyfrifon teg ar ran y gyllideb arbedion ac awgrym bod yr arbedion hynny sydd heb eu cyflawni yn fater rheolaethol efallai - methiant i weithredu yw'r sefyllfa yn hytrach na chyllido anghywir.

## PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau**

## 7. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2021

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid y Cynghorydd Ioan Thomas . Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig (sefyllfa diwedd Awst 2021)

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun i'r adroddiad drwy nodi:-

- Bod effaith Covid-19 yn parhau ynghyd a chynnydd mewn prisiau nwyddau adeiladu sy'n arwain at diffyg cyflawni rhai cynlluniau - derbyn yr angen i gynnal trafodaethau pellach a blaenoriaethu /oedi rhai prosiectau.
- Bod dadansoddiad o'r rhaglen gyfalaf o £124.0 miliwn am y tair blynedd nesaf wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.
- Bod y Cabinet wedi derbyn yr holl argymhellion a nodwyd yn adroddiad i'r Cabinet 12-10-21 gan gymeradwyo'r ariannu addasedig gwerth £25.8 miliwn o amryw

ffynonellau i ariannu lithriadau o 2020/21 a hefyd y cynnydd o £12.4 miliwn nifer o ffynonellau

Ategodd yr Uwch Reolwr Cyllid

- Bod gan y Cyngor gynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £71.6 miliwn eleni gyda £26.1 miliwn wedi ei ariannu drwy grantiau penodol.
- Bod argyfwng Covid yn parhau ar y rhaglen Gyfalaf gyda dim ond 16% o'r gyllideb wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst, o'i gymharu â 13% dros yr un cyfnod y llynedd a 19% ddwy flynedd yn ôl.
- Bod £9.1m o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24 ac amlygwyd y prif gynlluniau a oedd yn cynnwys Ysgolion Ganrif 21, Cynlluniau Ysgogi'r Economi ac Unedau Diwydiannol a Chynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor

Tynnwyd sylw at restr grantiau ychwanegol mae'r Cyngor wedi eu denu ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys grant o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, Grant Targedu Buddsoddiad i gynllun Nyth ym Mangor a Grantiau Llywodraeth Cymru i'r Maes Gofal Plant.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylw canlynol gan aelod:

- Bod yr adrannau yn amlwg yn chwilio am bob cymorth ariannol posib

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â risg o golli grant Ewrop yng nghyd-destun Ffordd Osgoi Llanbedr nodwyd bod cais cynllunio yn ei le ar gyfer y prosiect gydag arian wedi ei ymrwymo ar ei gyfer. Ategwyd bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r mater ac yn ail adolygu'r agenda fel bo modd gwarchod arian Ewrop - bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn yr wythnosau nesaf.

Mewn ymateb i sylw nad oes gwelliant amlwg yng ngwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus er yn derbyn grantiau, nodwyd bod y grantiau yn daladwy ar gyfer datblygu isadeiledd ac nid ar gyfer y gwasanaeth yn uniongyrchol

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor**

## **8. TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid yn gofyn i'r pwyllgor nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion, ystyried penderfyniadau'r Cabinet ar 12 Hydref, 2021 a sylwebu fel bo angen.

Eglurodd bod adrannau wedi canolbwyntio ac ymateb i argyfwng covid ers Ebrill 2020 gan flaenoriaethu diogelwch trigolion Gwynedd - hyn felly wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion.

Ategodd yr Uwch Reolwr Cyllid:

- Ers 2015/16 fod gwerth £35m o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu rhwng 2015/16 – 2021/22. Nodwyd bellach fod dros £32.7miliwn o arbedion wedi ei gwireddu sydd yn 94% o'r swm gofynnol dros y cyfnod.



- Ym mis Ionawr eleni, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.
- O gynlluniau arbedion 2021/22 fod 42% eisoes wedi ei gwireddu gyda 22% bellach ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Bod gwireddu gwerth £32.7m o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol. Mynegwyd, er bod oediad ar rai cynlluniau arbedion gwerth £1m eu bod yn symud yn eu blaen ond bod angen trafod risgiau i gyflawni gwerth £0.9m o gynlluniau.

Adroddwyd bod y Cabinet wedi derbyn yr holl argymhellion ynghyd a'r wybodaeth am y cynnydd i wireddu cynlluniau arbedion 2021/22, 2020/21 a blynyddoedd blaenorol (gan nodi fod effaith Covid wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion). Ategwyd, gyda'r Cyngor wedi blaenoriaethu ymateb i'r argyfwng, ni fu modd parhau gyda'r trefniadau herio perfformiad ac arbedion dros ran o gyfnod yr argyfwng.

Fel ymateb i gais gan y Cabinet i gynnal adolygiad ar y cynlluniau arbedion sydd heb eu gwireddu ynghyd a sicrhau fod modd cyflawni cynlluniau i'r dyfodol neu/a chwilio am gynlluniau amgen, nodwyd bod trafodaethau gyda'r adrannau bellach wedi eu trefnu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelod:

- Bod yr adroddiad yn galonogol er bod rhai meysydd gwan
- Bod yr arbedion yn ganran fach iawn o gyllideb yr adrannau - awgrym i gynnwys gwybodaeth cyllideb v % arbedion i'r dyfodol

#### **PENDERFYNIAD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion**

### **9. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddarar'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2021 hyd 30 Medi 2021. Amlygwyd bod 10 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau ynghyd a 4 oedd wedi llithro o gynllun 2020/21.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro - nid oedd unrhyw fater yn codi

#### **Diolchwyd am yr adroddiad**

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol**

### **10. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2021/22**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddarar'r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd a'r amser a dreuliyd ar bob archwiliad. Amlygwyd bod 18.87%, allan o'r 53 archwiliad unigol sydd yn y cynllun, bod 10 wedi ei ryddhau yn derfynol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnal ymchwiliadau o dan ganllawiau covid, nodwyd nad oedd modd i'r gwasanaeth gynnal ymwiliadau cartrefi preswyl, ysgolion ayyb ac mai

anodd yw derbyn dogfennau sydd ddim ar ffurf electroneg - hyn yn rhwystr os yn archwiliad hanesyddol. Ategwyd nad oedd defnyddio Teams yn ffordd effeithiol o holi unigolion os yw'r mater yn un cynhennus neu sensitif.

Diolchodd y Pennaeth Cyllid i'r Rheolwr Archwilio am ei gwaith gan amlygu bod staff y Gwasanaeth Archwilio hefyd yn cynorthwyo / trosglwyddo i adrannau eraill

## PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun archwilio 2021/22**

### 11. TROSOLWG O'R PROSIECT PRENTISIAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad yn cyflwyno trosolwg o'r Prosiect Prentisiaethau gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau i'r dyfodol. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cabinet (22/01/19) wedi ymrwmo i wariant o £300,00 o Gronfa Cynllun y Cyngor i sefydlu Cynllun Prentisiaethau i gyflogi hyd at 20 prentis newydd yn 2019. Adroddwyd bod y cynllun bellach wedi ei gynnwys fel maes blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2018 -2023 gyda sgôp prosiect y Cynllun Prentisiaethau wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn Cynllunio'r Gweithlu.

Ers dechrau'r cynllun yn 2019, mae 30 wedi eu recriwtio gyda 10 o brentisiaethau 2019/20 wedi derbyn swydd yn y Cyngor. Ategwyd bod bwriad i hysbysebu 7 swydd arall erbyn diwedd y flwyddyn gan ddod ar cyfanswm i 37. Yng nghyfarfod y Cabinet Mai 2021, cymeradwywyd cais am £600,00 ychwanegol dros dair blynedd gan anelu i gynnig o leiaf 20 prentisiaeth y flwyddyn dros gyfnod yr ariannu. Bydd hyn yn caniatáu darparu cefnogaeth a'r weinyddiaeth angenrheidiol ar gyfer y cynllun ynghyd a datblygu'r cynllun i weithio mwy gyda busnesau bach, contractwyr lleol a mentrau cymdeithasol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Llongyfarchwyd yr adran ar y gwaith ac o yrru cynllun llwyddiannus yn ei flaen
- Bod y maes yn un cyffrous gyda datblygiadau diddorol i'r dyfodol
- Cais am wybodaeth yn amlygu'r rhai sydd wedi gadael i weithio mewn sefydliadau eraill - hyn hefyd yn dangos gwerth i'r cynllun

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut mae'r cynllun yn sicrhau bod prentis newydd yn teimlo fel rhan o dîm /adran oherwydd gofynion gweithio o adre, nodwyd bod cefnogaeth ddwys wythnosol ar gyfer yr unigolyn gan y Tîm Dysgu a Datblygu ynghyd a chefnogaeth gan Reolwyr yr adrannau perthnasol i sicrhau nad yw'r prentis yn teimlo'n ymylol.

Mewn ymateb i sylw bod argyfwng staff proffesiynol mewn dwy adran o'r Cyngor ac nad oedd cynlluniau prentis wedi eu cynnwys ar gyfer yr adrannau hyn, nodwyd nad oedd cynlluniau hyfforddiant a chymwysterau proffesiynol ar gael ar gyfer pob maes prentisiaethol, ond bod y Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory yn cyfarch y maes cyfreithiol a'r maes eiddo. Ategwyd bod trafodaethau yn parhau ynglŷn â 'llenwi bylchau' yn y meysydd yma i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a dulliau rhannu gwybodaeth a'r broses recriwtio, nodwyd bod canran helaeth o'r gwaith hysbysebu yn cael ei wneud drwy'r cyfryngau cymdeithasol, Gyrfa Cymru, Ysgolion a Cholegau. Ategwyd bod cofnod o'r unigolion hynny sydd wedi dangos diddordeb yn cael ei gadw ar restr sydd gydag oddeutu 500 enw – bydd rhain yn derbyn gwybodaeth fel mae cyfleoedd yn codi

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phrinder gofaluwr ac a oes modd denu gofaluwr drwy'r cynllun prentisiaethau, nodwyd bod nifer uchel yn dangos diddordeb yn y maes gofal. Ategwyd bod y broses penodi yn cael ei gwneud ar y cyd rhwng tîm canolog a rheolwyr gwasanaeth.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â datblygu prentisiaethau ar y cyd gyda chwmnïau preifat, nodwyd yr angen i sicrhau sylfaen gadarn i'r cynllun mewnol cyn datblygu lleoliadau gwaith tu hwnt i'r Cyngor. Er hynny, ategwyd bod gwaith cychwynnol yn cael ei wneud i sefydlu prentisiaethau ar y cyd ac y byddai modd rhoi diweddariad ar yr agwedd yma wrth iddo ddatblygu.

## PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cais am ddiweddariad o'r gwaith Prentisiaethau ar y Cyd gyda chwmnïau a chontractwyr lleol wedi iddo ddatblygu**

## 12. CADW'R BUDD YN LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd prosiect blaenoriaeth Cynllun Y Cyngor sef Cadw'r Budd yn Lleol sydd yn ceisio sicrhau bod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill cytundebau fel bod cymaint o wariant y Cyngor yn aros yng Ngwynedd er budd yr economi leol. Amlygwyd bod heriau megis Brexit a deddfau perthnasol yn cyfyngu rhai agweddau o'r broses caffael ond bod y Cyngor yn ceisio gwneud pob dim posib er mwyn cynyddu'r gyfradd cadw'r budd yn lleol.

Amlygwyd mai un dull gwaith newydd sydd yn cael ei dreialu yng Ngwynedd yw caffael arloesol. Nod y dull yw cyflwyno methodoleg asesu tendrau newydd fydd yn galluogi cynnwys cymal Buddiant Cymdeithasol i Wynedd fel sail i asesu'r tendrau. Y bwriad yw y bydd yr elfen buddiant cymdeithasol yn golygu bod gan gwmnïau lleol cyfle i arddangos eu cyfraniad i'r economi leol o dderbyn cytundeb gan y Cyngor. Nodwyd mai un cytundeb sydd wedi ei osod hyd yma o ddefnyddio'r fethodoleg a hynny oherwydd gwrthdaro rhwng yr awydd o gadw'r budd yn lleol a gofynion y Ddeddf Caffael. Er hynny, ystyriwyd bod yr un cytundeb yma yn dangos potential o ddefnydd y fethodoleg ac y byddai modd cyflwyno diweddariad i'r pwyllgor fel y bydd mwy o gytundebau yn cael eu gosod.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Llongyfarchwyd yr adran ar y cynllun
- Caffael arloesol i'w groesawu - y prosiect yn debygol o gefnogi elusennau gyda nifer o gwmnïau yn barod i gynnig buddiannau lleol
- Y prosiect yn gosod strwythur a rhoi hwbi fentrau lleol

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sicrhau gwaith / cytundebau lleol / defnydd deunyddiau lleol i gyflawni gweledigaeth yr Adran Tai ac Eiddo i ddarparu 1,500 o gartrefi fforddiadwy i bobl Gwynedd dros y chwe blynedd nesaf, nodwyd bod cyfleoedd aruthrol o ganlyniad i'r Cynllun Tai a bod Tîm Categori yr Adran yn cydweithio gyda'r Uned Caffael i sicrhau bod pob elfen yn rhan o'r cytundebau. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â defnyddio cynhyrchwyr lleol, nodwyd bod modd edrych ar yr ôl troed carbon, yr iaith Gymraeg a diweithdra ar gyfer yr elfen yma, ond yn sicr yn amlygu'r math o botensial sydd angen i'w gryfhau i'r dyfodol.

## PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnydd a wnaed yn y prosiect sy'n cael ei gydnabod fel un o brosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor**
- **Cais am ddiweddariad wrth i'r ffrwd gwaith Caffael Arloesol - Methodoleg Caffael Gwerth Cymdeithasol dderbyn mwy o gytundebau**

### **13. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL**

Croesawyd Alan Hughes (AH), Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem yn un i'w ystyried fel rôl llywodraethu ac nid fel rôl craffu gyda chais i'r Pwyllgor fod yn fodlon bod trefniadau priodol yn ei lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o archwiliadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

Nodwyd bod y gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o gynigion gwella yn waith parhaus a bod y Grŵp Llywodraethu sydd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr yn rhoi sylw i'r cynigion gwella ac i'r cynnydd o'r argymhellion. Adroddodd AH bod Archwilio Cymru bellach yn cyflwyno adroddiadau chwarterol fel modd o grynhoi'r archwiliadau sydd ar waith yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw bod amryw o'r casgliadau yn nodi 'gwell defnydd o ddata' a bod hyn i raddau yn fater cyffredinol, nodwyd bod Ffordd Gwynedd yn rhan bwysig o'r gwaith a bod camau i wella defnydd data dros y 18 mis diwethaf wedi eu gweithredu e.e., drwy sefydlu dashfyrdau. Derbyniwyd bod angen datblygu'r gwaith a gwneud gwell defnydd o'r data gan ei gasglu a'i ddehongli i sicrhau gwybodaeth gadarn. Ategwyd bod y Grŵp Llywodraethu yn cadw trosolwg rheolaidd ar waith yr adrannau

Derbyniwyd y sylw y dylai Penaethiaid weithredu ar y sylwadau a bod yr adroddiad yn derbyn sylw gan y Pwyllgorau Craffu perthnasol a'r swyddogion Craffu

### **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Derbyn bod angen trefniadau a phrosesau llywodraethu priodol o fewn y Cyngor i sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu**
- **Sicrhau bod y mater yn cael sylw gan y Pwyllgorau a'r Swyddogion Craffu**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 12:25

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD:	<b>18 TACHWEDD 2021</b>
TEITL:	<b>STRATEGAETH CYLLIDEB 2022/23</b>
PWRPAS:	<b>Cynllunio Ariannol</b>
GWEITHREDIAD:	<b>Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r strategaeth, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet</b>
AELOD CABINET:	<b>CYNGHORYDD IOAN THOMAS</b>
SWYDDOG CYSWLLT:	<b>DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID</b>

---

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwyllir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol, gan gynnwys adroddiadau ar y gyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Strategaeth Cyllideb 2022/23) i'r Cabinet ar 28 Medi 2021. Mae'r swmp o'r cynnwys yn parhau'n gyfredol, a byddwn yn darparu diweddariad llafar i'r Pwyllgor ar ddatblygiadau diweddar.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r amserlen, y rhagolygon a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt strategaeth cyllideb y Cyngor, ystyried penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

## **Atodiadau:**

- Taflen penderfyniad Cabinet 28/09/2021
- Adroddiad Cabinet 28/09/2021: Strategaeth Cyllideb 2022/23

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	28 Medi 2021
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	13 Hydref 2021

---

**PWNC**

Eitem 11:STRATEGAETH CYLLIDEB 2022/23

---

**PENDERFYNIAD**

- i. Cymeradwywyd y drefn ac amserlen ar gyfer llunio Cyllideb 2022/23.
  - i. Nodwyd os bydd bwlbh cyllido i fantoli cyllideb 2022/23, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, a pwylllo cyn adnabod unrhyw arbedion ychwanegol fydd angen yn ystod haf 2022.
  - i. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad fel Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, tra'n nodi, yn y cyd-destun cyfredol, fod cynllunio ariannol yn hynod heriol.
- 

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Nodwyd fod yr adroddiad yn rhoi amlinelliad o drefn flynyddol llunio cyllideb am y flwyddyn 2022/23, ynghyd â Chynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y Cyngor.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---

CYFARFOD: **CABINET**

DYDDIAD: **28 MEDI 2021**

TEITL: **STRATEGAETH CYLLIDEB 2022/23**

PWRPAS: **CYNLLUNIO ARIANNOL**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD IOAN THOMAS, AELOD CABINET CYLLID**

---

#### **Penderfyniadau a geisir:**

- A. Cymeradwyo'r drefn ac amserlen ar gyfer llunio Cyllideb 2022/23.**
  - B. Nodi os bydd bwllch cyllido i fantoli cyllideb 2022/23, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, a pwylllo cyn adnabod unrhyw arbedion ychwanegol fydd angen yn ystod haf 2022.**
  - C. Derbyn cynnwys yr adroddiad fel Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, tra'n nodi, yn y cyd-destun cyfredol, fod cynllunio ariannol yn hynod heriol.**
- 

#### **Cefndir**

1. Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o drefn flynyddol llunio cyllideb am y flwyddyn 2022/23, ynghyd â Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y Cyngor.

#### **Gwariant y Cyngor**

2. Mae cyfrifwyr y Cyngor wrthi'n gwneud y gwaith paratoi'r gyllideb o ran anghenion gwario 2022/23, drwy amcangyfrif effaith cytundebau tâl, chwyddiant arall, addasu cyfraniadau anorfod ac ymrwymadau gwario eraill.
3. Yn anochel, bydd gwasanaethau'r Cyngor yn cyflwyno sawl cais am adnoddau ychwanegol yn wyneb pwysau anorfod, a gyda'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Cabinet, byddwn yn asesu'r 'bidiau' yma dros y misoedd nesaf.

#### **Grant Llywodraeth**

4. Ochr arall y geiniog yw'r adnoddau grant fydd ar gael i'r Cyngor er mwyn ariannu'r ymrwymadau yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bwriad i gyhoeddi eu **setliad drafft 2022/23 ar gyfer awdurdodau lleol ar 21<sup>ain</sup> o Ragfyr 2021** (ar ôl cyhoeddi eu Cyllideb Ddrafft 2022/23 nhw eu hunain ar 20<sup>fed</sup> o Ragfyr 2021) a'r **setliad terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar yr 2<sup>il</sup> o Fawrth 2022** (ar ôl cyhoeddi eu Cyllideb derfynol ar y 1<sup>af</sup> o Fawrth 2022). Gall y dyddiadau hyn newid, gan eu bod yn dibynnu ar glych gwariant Llywodraeth y DU a chamau nesaf y pandemig.

5. Bydd yr amserlen yma'n heriol i awdurdodau lleol, gyda chyfnod estynedig o ansicrwydd ariannol yn sgil ardrawiad yr argyfwng Covid-19, ond bydd Cyngor Gwynedd yn cychwyn o sylfaen gyllidol gymharol gadarn, gyda lefel iach o gronfeydd wrth gefn gellir eu defnyddio. Bydd aelodau a swyddogion yn gwneud gwaith pellach dros y misoedd nesaf er mwyn cwrdd â'r amserlen i baratoi cynnig cyllidebol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar y 3<sup>ydd</sup> o Fawrth 2022.

### **Ansicrwydd Ariannol**

6. Wrth gynllunio cyllideb 2022/23 y Cyngor, rydym yn gwynebu ansicrwydd ariannol oherwydd diffyg gwybodaeth. Mae hyn yn golygu'r angen i ni wneud nifer o ragdybiaethau, tra bod yr hinsawdd ariannol ac economaidd yn newid, ynghyd ag ymatebion y Llywodraethau. Mae'r ansicrwydd cyfredol yn cynnwys:
  - i. Cyflymder yr adferiad o pandemig Covid-19, a'i effaith ar wariant, incwm, cynlluniau cynilo, ayb.
  - ii. Parhad o'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i osod yn erbyn cost ariannol y pandemig i'r Cyngor (hyd yn hyn, mae grantiau ychwanegol gan y Llywodraeth wedi lliniaru costau ychwanegol, colledion incwm a diffygion refeniw o ganlyniad i'r pandemig, ond nid yw cyllid ychwanegol 'Covid' wedi ei adnabod ar gyfer 2022/23 eto).
  - iii. Tueddiad fod prisiau wedi cynyddu yn ddiweddar, ond disgwyliadau efallai na fydd hynny'n parhau.
  - iv. Oedi wrth setlo codiadau cyflog blynyddol.
  - v. Oedi gydag Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU, roedd i fod i gymryd lle yn 2020. Yn ddiweddar, roedd swyddogion y Llywodraeth wedi cyfeirio at y 'rownd wario' ar gyfer 2022/23, ac awgrymu y bydd yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr yn effeithio ar gyllid craidd a grantiau yn 2023/24 a thu hwnt. Fodd bynnag, nododd llythyr lansio Canghellor y Trysorlys a gyhoeddwyd ar 7 Medi 2021 y bydd "Adolygiad Gwariant 2021 yn gosod grantiau bloc y gweinyddiaethau datganoledig rhwng 2022-23 a 2024-25, a bydd yn gorffen ochr yn ochr â Chyllideb yr Hydref ar 27 Hydref 2021".
  - vi. Bu etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2021, ac nid yw blaenoriaethau'r Llywodraeth newydd yn eglur eto.
  - vii. Cynigion heb eu cadarnhau gan y ddau Lywodraeth am gyllid hir-dymor cynaliadwy ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion.
  - viii. Ar ôl gostyngiadau grant mewn termau real am nifer o flynyddoedd blaenorol, derbyniodd y Cyngor setliadau grant tecach am 2020/21 a 2021/22, roedd yn cyfarch chwyddiant.
  - ix. Fel yn 2020/21 a 2021/22, does dim cadarnhad o gyllid ychwanegol ar gyfer beichiau newydd a phwysau galw arall ar gyfer 2022/23.

### **Rhagdybiaethau Cyllideb 2022/23**

7. Er gwaethaf y diffyg gwybodaeth, mae'r tabl isod yn ymgais i gynllunio cyllideb 2022/23 ar gyfer y Cyngor. Yn wyneb yr ansicrwydd amlinellir uchod, gwneir nifer o ragdybiaethau bras am y prif ffactorau cyllidebu, megis chwyddiant, galw am wasanaethau, ac ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru, er mwyn adnabod amrediad posib faint y gallai fod angen lleihau Cyllideb 2022/23.



2022/23	Achos Gorau £m	Achos Canolog £m	Achos Gwaethaf o fewn rheswm £m
Chwyddiant Tâl -			
- Awdurdod Lleol	2.8	3.1	3.5
- Athrawon	2.2	2.5	2.8
Chwyddiant Prisiau	2.5	3.0	3.5
Pwysau / Galw -			
- Gofal Cymdeithasol	1.5	2.0	2.5
- Arall	1.5	2.5	3.5
Cyfanswm Pwysau	10.5	13.1	15.8
Newidiadau Ariannu -			
- Treth Cyngor (2% / 3.5% / 4.5%)	1.5	2.6	3.3
- Setliad Grant (4.5% / 3.5% / 2.5%)	9.0	7.0	5.0
Cyfanswm y newidiadau ariannu	10.5	9.6	8.3
Angen Gostwng y Gyllideb	0.0	3.5	7.5

### Cynllun Ariannol Tymor Canolig

8. Ymhellach, mae'r tabl isod yn ymgais i lunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y Cyngor, gydag 'achos canolog' o'r posibiladau o fod angen lleihau Cyllideb erbyn 2022/23, 2023/24 a 2024/25.

Achos Canolog	2022/23 £m	2023/24 £m	2024/25 £m
Chwyddiant Tâl -			
- Awdurdod Lleol	3.1	3.1	3.1
- Athrawon	2.5	2.5	2.5
Chwyddiant Prisiau	3.0	3.0	3.0
Pwysau / Galw -			
- Gofal Cymdeithasol	2.0	1.0	1.0
- Arall	2.5	2.0	2.0
Cyfanswm Pwysau	13.1	11.6	11.6
Newidiadau Ariannu -			
- Treth Cyngor (3.5%)	2.6	2.6	2.6
- Setliad Grant (3.5%)	7.0	7.0	7.0
Cyfanswm y newidiadau ariannu	9.6	9.6	9.6
Angen Gostwng y Gyllideb	3.5	2.0	2.0

9. Yn wyneb yr ansicrwydd ariannol nodwyd eisoes, ni awgrymir fod y ffigyrau bras yma'n "atebion cywir", bydd gwaith cyllidebu llawer mwy soffistigedig i ddilyn, ond credwn fod rhain yn amcangyfrifon teg i bwrpas cynllunio.

## Casgliad

10. Eleni, **mae cynllunio ariannol yn hynod heriol**, gydag ystod o senarios posib yn awgrymu bwch cyllido ar gyfer 2022/23 a allai fod unrhyw swm rhwng £0 a £7.5m, gyda'r ystod o ganlyniadau posibl yn cynyddu'n eang erbyn 2023/24 a thu hwnt. **Wrth gynllunio ar gyfer 2022/23, os bydd bwch cyllido mi fydd sylfaen gyllidol gadarn Cyngor Gwynedd yn caniatáu i ni 'bontio' yn y tymor byr.**

## Argymhelliad

11. Deallwn, wrth gwrs, bydd y Cyngor awydd osgoi ystyriaeth dwys a diangen o restrau arbedion a thoriadau gwasanaeth posibl yn ystod cyfnod parhaus cyfredol y pandemig Covid-19. Felly, eto fel cynlluniwyd yr adeg yma llynedd, **os bydd bwch cyllido i fantoli cyllideb 2022/23, i ddechrau argymhellir i'r Cyngor ystyried defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau**, ynghyd â'r angen i'r Dreth Cyngor gynyddu.

## Camau i'r Dyfodol

12. Mae'n hynod fuddiol ein bod yn gallu defnyddio sefyllfa iach iawn cronfeydd wrth gefn y Cyngor i liniaru pwysau cyllidebol nawr, yn hytrach na hel bwganod oherwydd yr ansicrwydd cyfredol. Yn y tymor hwy, bosib bydd angen ailgyflenwi rhai o'r cronfeydd wrth gefn, fel eu bod ar gael pan fydd eu hangen yn y dyfodol.
13. Bydd aelodau'r Cabinet yn derbyn gwybodaeth pellach rhwng Rhagfyr 2021 a Chwefror 2022, yn sgil datganiad setliad grant llywodraeth leol ar gyfer 2022/23, ac fel mae cynlluniau cyllidebu'n datblygu. Yn Ionawr 2022, bydd aelodau'r Cabinet yn ystyried ymrwymadau gwario anorfod y Cyngor yng nghyd-destun setliad drafft 2022/23, cyn bydd yr Aelod Cabinet Cyllid a'r Pennaeth Cyllid yn ymgynghori gyda holl aelodau'r Cyngor mewn cyfres o seminarau.
14. Gweler amserlen cyllideb y Cyngor yn **Atodiad A**. Byddwn yn ymlynu at yr amserlen flynyddol arferol o adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (10 Chwefror, i gynnig sylwadau ar risgiau ariannol), y Cabinet (15 Chwefror, i argymhell cyllideb a threth), a'r Cyngor llawn (3 Mawrth, i osod y gyllideb a'r Dreth Cyngor, sydd rhaid ei osod erbyn 11 Mawrth).
15. Pan fydd y Cyngor yn wynebu llai o ansicrwydd ariannol, ar ôl i effaith Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU ar ariannu craidd a grantiau'r dyfodol ddod yn gliriach, bydd y Swyddog Cyllid Statudol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn sefydlu cynllun ariannol tymor canolig mwy manwl i'r Cyngor newydd, gan adolygu unrhyw benderfyniadau a gymerwyd yn flaenorol.

## **Barn y swyddogion statudol**

### **Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn gosod cyd-destun ar gyfer sefydlu Cyllideb 2022/23. Mater i'r Cabinet yw ffurfio cyllideb ddrafft i'w argymhell i'r Cyngor ac mae'r broses gynllunio a gynigir yn briodol.

### **Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

## **Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

## AMSERLEN CYLLIDEB 2021/22

<b>2021</b>	
27 Hydref	Adolygiad Gwariant aml-flwyddyn Llywodraeth y DU, i osod cyllidebau ar gyfer 2022/23 i 2024/25, ynghyd â Chyllideb yr Hydref.
20 Rhagfyr	Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru am 2022/23
21 Rhagfyr	Setliad amodol Llywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol
<b>2022</b>	
mis Ionawr	Cyfres o Seminarau ar y Gyllideb i holl aelodau'r Cyngor
10 Chwefror	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu: craffu'r gyllideb ddrafft ac ystyried risgiau perthnasol
15 Chwefror	Cyfarfod ffurfiol o'r Cabinet: ystyried y strategaeth ariannol ac argymell cyllideb i'r Cyngor llawn
1 Mawrth	Cyllideb terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23
2 Mawrth	Setliad terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol
3 Mawrth	Cyfarfod y Cyngor llawn - gosod cyllideb a treth 2022/23

# Eitem 6

CYFARFOD:	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD:	<b>18 TACHWEDD 2021</b>
TEITL:	<b>RHEOLAETH TRYSORLYS 2021-22 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN</b>
PWRPAS:	<b>Mae Cod Ymarfer CIPFA yn argymhell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.</b>
ARGYMHELLIAD:	<b>DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH</b>
AWDUR:	<b>DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID</b>

---

## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Yn ystod y cyfnod chwe mis rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021, arhosodd gweithgarwch benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian wedi methu ad-dalu. Ymhellach, amcangyfrifir bydd gwir incwm buddsoddi'r Cyngor yn uwch na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2021/22.**

---

## **1. CYFLWYNIAD**

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli Trysorlys (Cod TM CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn (canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn). Mae'r adroddiad yma yn darparu diweddariad canol blwyddyn.

Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor gan y Cyngor llawn ar 4 Mawrth 2021. Mae'r Cyngor wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Mae adnabyddiaeth lwyddiannus, monitro a rheolaeth risg yn ganolog i strategaeth rheolaeth trysorlys y Cyngor.

Mae Cod Darbodus 2017 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol ddarparu Strategaeth Cyfalaf, sef dogfen grynodedd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn yn trafod gwariant ac arian cyfalaf, rheolaeth trysorlys a buddsoddiadau nad ydynt yn rhai trysorlys. Cymeradwywyd Strategaeth Cyfalaf y Cyngor, sy'n cydymffurfio gyda gofynion CIPFA, gan y Cyngor llawn hefyd ar 4 Mawrth 2021.

## 2. CYD-DESTUN ALLANOL

**Y cefndir economaidd:** Prif nodwedd hanner cyntaf y flwyddyn ariannol oedd yr adferiad economaidd yn dilyn y pandemig Coronafirws. Erbyn diwedd y cyfnod yr oedd dros 48 miliwn o bobl yn y DU wedi derbyn eu dos cyntaf o frechlyn COVID-19 a bron 45 miliwn wedi derbyn ail ddos.

Drwy'r cyfnod, cadwodd Fanc Lloegr y Gyfradd Banc ar 0.1%, a chynnal ei raglen Esmwytho Meintiol (QE) ar £895 biliwn, heb unrhyw newid ers y cyfarfod ym mis Tachwedd 2020. Yn ei gyhoeddiad polisi ym mis Medi 2021, nododd Fanc Lloegr bod disgwyl i economi'r DU dyfu'n arafach na'r hyn a ragwelwyd ym mis Awst, gan fod arwyddion o arafu yn yr adferiad bydeang, a bod pryder y byddai pwysau chwyddiant yn fwy cyson. Yn y cyhoeddiad, adolygwyd disgwyliadau'r Banc ar gyfer twf GDP ar gyfer y trydydd chwarter (calendr) gan ostwng i 2.1% (o 2.9%), yn adlewyrchu'n rhannol yr amodau cyflenwi tynnach. Bellach, disgwylir i lwybr chwyddiant CPI godi rhywfaint uwchben 4% yn nhri mis olaf 2021, o ganlyniad i brisiau ynni uwch a chwyddiant nwyddau craidd. Er na newidiwyd y cyfraddau polisi yn nghyfarfod y Pwyllgor Polisi Ariannol, roedd y naws yn fwy rhagweithiol.

Cefnogwyd yr economi dros y chwarter gan fentrau'r Llywodraeth, ond daethant i ben ar 30 Medi 2021, gyda busnesau naill ai'n gorfod derbyn 1.6 miliwn o weithwyr yn ôl o'r cynllun ffyrlo, neu eu diswyddo.

Dangosodd data diweddaraf y farchnad lafur fod y gyfradd ddiweithdra wedi gostwng i 4.6% yn ystod y tri mis hyd at fis Gorffennaf 2021. Cynyddodd y gyfradd gyflogaeth, a gostyngodd y cyfraddau gweithgarwch economaidd, gan awgrymu bod sefyllfa'r farchnad lafur yn gwella. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod twf yng nghyfanswm y tâl cyfartalog (yn cynnwys taliadau bonws) ymysg gweithwyr yn 8.3% a thâl rheolaidd (ac eithrio taliadau bonws) yn 6.3% dros y cyfnod. Fodd bynnag, mae'r ffigurau twf cadarn yn rhannol o ganlyniad i effaith sail yn deillio o ostyngiad mewn cyflogau cyfartalog yng ngwanwyn y llynedd yn gysylltiedig â'r cynllun ffyrlo.

Cynyddodd chwyddiant CPI i 3.2% ym mis Awst, gan ragori ar y disgwyliadau am 2.9%, gyda'r cyfraniad mwyaf tuag at y cynnydd yn dod gan fwytai a gwestai. Mae Banc Lloegr bellach yn disgwyl i chwyddiant gyrraedd dros 4% erbyn diwedd y flwyddyn galendr, yn bennaf o ganlyniad i brisiau ynni a nwyddau. Roedd Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr (CPI), y mesurydd a ffafrir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 3.0% y flwyddyn/blwyddyn sy'n cynnwys tai perchen-breswylwyr, sef lefel ychydig yn uwch na'r disgwyliad o 2.7%.

O ganlyniad i lacio'r cyfyngiadau, cafwyd mwy o weithgaredd yn ail chwarter y flwyddyn galendr, gan gyfrannu at y cynnydd o 5.5% yn y GDP ch/ch (amcangyfrif terfynol yn erbyn amcangyfrif cychwynol 4.8% ch/ch). Defnydd gan aelwydydd oedd y cyfrannwr mwyaf. Fesul sector, cyfrannodd cynhyrchu 1.0% ch/ch, adeiladu 3.8% ch/ch a gwasanaethau 6.5% ch/ch, a phob un yn agos at ddychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig.

Tyfodd economi UDA 6.3% yn Ch1 2021 (Ionawr-Mawrth), gyda thwf cryfach o 6.6% yn Ch2 wrth i'r adferiad barhau. Cynhaliodd y Federal Reserve ei brif gyfradd llog rhwng 0% a 0.25% dros y cyfnod, ond yn ei gyfarfod diweddaraf, gwnaed awgrym y byddai camau buan i dynhau'r polisi ariannol.

Cadwodd Banc Canolog Ewrop ei gyfradd sail yn 0%, y gyfradd adneuo yn -0.5%, a'r cynllun prynu asedau ar €1.85 triliwn.

**Marchnadoedd ariannol:** Cefnogwyd marchnadoedd ecwiti yn ystod y cyfnod gan ysgogiad ariannol a chyllidol, ynghyd â thwf economaidd a'r rhaglenni parhaus i ddarparu brechiadau, er bod y sefyllfa'n fwy ansefydlog erbyn diwedd y cyfnod. Cyrhaeddodd Dow Jones ei lefel

uchaf unwaith eto, a pharhaodd fynegai FTSE 250, sy'n canolbwyntio ar y DU, i wneud cynnydd uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Gwnaeth y FTSE 100, sydd â ffocws fwy rhyngwladol, gynnydd llai dros y cyfnod, ac mae'n parhau i fod yn is na'i lefel uchaf cyn yr argyfwng.

Parhaodd y pryderon chwyddiant yn ystod y cyfnod. Yr oedd y gostyngiadau yn enillion bondiau yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol yn awgrymu bod marchnadoedd bondiau yn disgwyl i unrhyw gynnydd cyffredinol mewn prisiau fod yn llai difrifol, neu'n fwy byrhoedlog na'r amcan blaenorol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn prisiau nwy yn y DU a'r UE, prinder cyflenwadau a phrinder gyrwyr HGV a loriau gyda chwmnïau'n fodlon talu mwy iddynt am eu gwasanaeth, wedi achosi problemau i nifer o ddiwydiannau, gan arwain at brisiau uwch mewn rhai achosion.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 0.36% oedd lefel yr enillion ar giltiau 5-mlynedd, cyn gostwng i 0.33% erbyn diwedd mis Mehefin 2021, a dringo i 0.64% ar 30 Medi. Dros yr un cyfnod, gostyngodd yr enillion gilt o 0.80% i 0.71% cyn codi i 1.03%. Gostyngodd yr enillion 20-mlynedd o 1.31% i 1.21% a chynyddu wedyn i 1.37%.

0.05% oedd cyfartaledd Cyfradd Dros Nos Sterling (SONIA) dros y chwarter.

**Adolygiad credyd:** Roedd lefelau amrediad cyfnewid diffyg dalu credyd yn sefydlog dros y cyfnod ac maent yn cyfateb yn fras i'w lefelau cyn y pandemig. Ar ddiwedd mis Medi gwelwyd cynnydd yn yr amrediad o ychydig bwyntiau sail o ganlyniad i ddiffyg gan Evergrande, datblygwr eiddo o China, ond maent bellach yn gostwng eto. Yr oedd y bwloch yn yr amrediad rhwng endidau y DU wedi'u clustnodi a heb eu clustnodi yn parhau'n gul, ond yr oedd Santander UK yn parhau yn eithriad i'r banciau eraill wedi'u clustnodi/manwerthu. Ar ddiwedd y cyfnod yr oedd Santander UK yn masnachu ar y lefel uchaf o 53bps a Lloyds Banks plc oedd yr isaf ar 32bps. Yr oedd y banciau eraill wedi'u clustnodi yn masnachu rhwng 37-39bps a Nationwide Building Society yn 39bps.

Dros y cyfnod, bu cynnydd yn adolygiad Fitch a Moody's i sefydlogi'r rhagolygon ar gyfer nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu'r DU ar ein rhestr o wrthbartïon, gan gydnabod y gwelliant yn eu sefyllfaoedd cyfalaf o gymharu â llynedd, a gwell rhagolygon twf yn y DU.

Yn ogystal, adolygodd Fitch ei ragolygon ar gyfer Nordea, Svenska Handelsbanken a Handelsbanken plc i sefydlog o negyddol. Ystyriodd yr asiantaeth raddio bod y gwelliant yn rhagolygon economaidd yr ardal Nordig wedi gostwng gwaelodlin y risgiau negyddol a oedd wedi'u hadnabod mewn perthynas â'r benthycwyr.

Mae'r rhaglen lwyddiannus i gyflwyno brechiadau yn bositif o ran credyd yn gyffredinol i'r sector gwasanaethau ariannol, ac o ganlyniad i'r rhagolwg economaidd gwell mae rhai sefydliadau wedi gallu lleihau'r darpariaethau ar gyfer benthyciadau gwael. Er bod ansicrwydd yn parhau ynghylch lefel y colledion i fanciau a chymdeithasau adeiladu o ganlyniad i arafwch yr economi yn sgil y pandemig, yn gyffredinol mae'r sector bellach mewn sefyllfa gryfach nag yr oedd yn gynharach eleni ac yn 2020.

Ar ddiwedd y cyfnod, yr oedd Arlingclose wedi cwblhau ei adolygiad llawn o'i gyngor credyd ar adneuon heb eu diogelu. O ganlyniad i'r adolygiad, cafodd NatWest Markets plc ei ychwanegu at y rhestr wrthbartïon, a chafodd gwaharddiad Handelsbanken plc ei ddileu. Yn ogystal, estynnwyd uchafswm cyfnod yr holl wrthbartïon a argymhellwyd i 100 niwrnod.

Fel yn arferol, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar rhestr wrthbartïon yr Awdurdod a argymhellir gan yr ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys yn cael eu hadolygu yn barhaus.

### 3. CYD-DESTUN LLEOL

Ar 31 Mawrth 2021 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £27.4m oherwydd gweithgareddau referniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthycu er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthycu Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi.

Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

#### Crynodeb o'r Fantolen –

	<b>31.3.21 Gwir £m</b>
CFR	174
Llai : *Ymrwymiadau dyled eraill	(2)
<b>CFR Benthyciadau</b>	<b>172</b>
Llai: Cronfeydd defnyddiadwy	(108)
Llai: Cyfalaf Gweithredol	(16)
<b>Benthyciadau net</b>	<b>48</b>

\*Iesau cyllido, ymrwymiadau PFI

Mae cyfraddau llog swyddogol is wedi gostwng cost benthyciadau tymor byr, dros do ac enillion buddsoddi o asedau arian parod y gellir eu defnyddio yn lle benthycu. Strategaeth gyfredol y Cyngor yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthycu mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

Dangosir sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi 2021 a'r newid yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

#### Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

	<b>31.3.21 Balans £m</b>	<b>Symudiad 6 mis £m</b>	<b>31.9.21 Balans £m</b>	<b>31.9.21 Cyfradd %</b>
Benthyciadau tymor hir	(104.7)	0.1	(104.6)	5.5
Benthyciadau tymor byr	(5.0)	5.0	0.0	n/a
PFI	(1.5)	0.0	(1.5)	n/a
<b>Cyfanswm Benthyciadau</b>	<b>(111.2)</b>	<b>5.1</b>	<b>(106.1)</b>	
Buddsoddiadau tymor byr	34.9	43.3	78.2	0.6
Arian a Chywerthydd arian	28.6	(5.7)	22.9	0.0
<b>Cyfanswm buddsoddiadau</b>	<b>63.5</b>	<b>37.6</b>	<b>101.1</b>	
<b>Benthyciadau net</b>	<b>(47.7)</b>	<b>42.7</b>	<b>(5.0)</b>	

### 4. DIWEDDARIAD BENTHYCA

Gall awdurdodau lleol fenthycu gan y PWLB ar yr amod eu bod yn gallu cadarnhau nad ydyn nhw'n bwriadu prynu 'asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch' yn y ddwy flynedd ariannol gyfredol neu nesaf, gyda chadarnhad o bwrpas gwariant cyfalaf gan y Swyddog Adran 151. Ni fydd awdurdodau sy'n prynu neu'n bwriadu prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch yn gallu cyrchu'r PWLB ac eithrio ail gyllido benthyciadau presennol neu



allanoli benthycia mewnol.

Mae defnydd derbyniol o fenthycia PWLB yn cynnwys darparu gwasanaethau, tai, adfywio, gweithredu ataliol, ail gyllido a rheoli trysorlys.

Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu prynu unrhyw asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch o fewn y tair blynedd nesaf ac felly mae'n gallu cyrchu'r PWLB yn llawn.

### Canllawiau PWLB Diwygiedig

Cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau pellach ar fenthycia PWLB ym mis Awst 2021 gan ddarparu manylion ac eglurhad ychwanegol yn bennaf ynghylch y diffiniad o 'ased buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch'. Y brif agweddau'r canllawiau newydd yw:

- Mae gwariant cyfalaf neu ymrwymadau cyn 26 Tachwedd 2020 yn ganiatol hyd yn oed ar gyfer 'ased buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch'.
- Dylai awdurdodau lleol gyflwyno cynlluniau cyfalaf trwy ffurflen DELTA. Mae'r rhain yn agor ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ar 1 Mawrth ac yn parhau ar agor trwy'r flwyddyn. Rhaid diweddarau'r ffurflenni os bydd newid o fwy na 10%.
- Ni ddylid categoreiddio ased a ddelir yn bennaf i gynhyrchu cynnyrch nad yw'n ateb unrhyw bwrpas polisi uniongyrchol fel darparu gwasanaethau.
- Manylion pellach ar sut y gall awdurdodau lleol sy'n prynu asedau buddsoddi yn bennaf ar gyfer cynnyrch gael mynediad i'r PWLB at ddibenion ail gyllido benthyciadau presennol neu allanoli benthycia mewnol.
- Manylion ychwanegol am y sancsiynau y gellir eu gosod am ddefnydd amhriodol o'r benthyciad PWLB. Gall y rhain gynnwys cais i ganslo prosiectau, cyfyngiadau ar gyrchu'r PWLB a cheisiadau am wybodaeth am gynlluniau pellach.

### Newidiadau i Delerau ac Amodau PWLB o 8 Medi 2021

Mae'r amser setliad ar gyfer benthyciad PWLB wedi'i ymestyn o ddau ddiwrnod gwaith (T + 2) i bum diwrnod gwaith (T + 5). Mewn ymdrech i amddiffyn y PWLB yn erbyn cyfraddau llog negyddol, mae'r isafswm cyfradd llog ar gyfer benthyciadau PWLB hefyd wedi'i bennu ar 0.01% a'r llog a godir ar ad-daliadau hwyr fydd yr uchaf o Gyfradd Sylfaen Banc Lloegr neu 0.1%.

Asiantaeth Bondiau Trefol (MBA): Mae'r MBA yn gweithio i ddarparu datrysiad benthyciad tymor byr newydd, sydd ar gael yn y lle cyntaf i brif awdurdodau lleol yn Lloegr, gan ganiatáu iddynt gael mynediad at ddyled hyblyg, tymor byr gyda chyfradd isel. Disgwylir i isafswm maint y benthyciad fod yn £25 miliwn. Yn bwysig, bydd awdurdodau lleol yn benthycia yn eu henwau eu hunain ac ni fyddant yn croes-warantu unrhyw awdurdodau eraill.

Os yw'r Awdurdod yn bwriadu benthycia trwy'r MBA yn y dyfodol, bydd yn gyntaf yn sicrhau ei fod wedi archwilio'n drylwyr ar delerau ac amodau cyfreithiol y trefniant ac yn fodlon â nhw.

Banc Is-adeiledd y DU: Mae £4bn wedi'i glustnodi ar gyfer benthycia i awdurdodau lleol gan Fanc Is-adeiledd y DU sydd ym mherchnogaeth lwyr ac yn cael ei gefnogi gan Drysorlys EM. Nid yw argaeledd y benthyciad hwn i awdurdodau lleol, y bydd proses gynnig ar ei gyfer, wedi cychwyn eto. Bydd benthyciadau ar gael ar gyfer prosiectau cymwys ar gynnnyrch gilt ynghyd â 0.6%, sydd 0.2% yn is na chyfradd sicrwydd PWLB.

## 5. STRATEGAETH BENTHYCA

Ar 30 Medi 2021, roedd gan y Cyngor £103.1m o fenthyciadau fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol, a £1.5m ar gyfer prosiectau penodol. Crynhoi'r benthyciadau sy'n ddyledus ar 30 Medi yn tabl isod.

### Sefyllfa Benthycia

	<b>31.3.21</b>	<b>6 month</b>	<b>30.9.21</b>	<b>30.9.21</b>
	<b>Balance</b>	<b>Movement</b>	<b>Balance</b>	<b>Rate</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>%</b>
Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)	86.9	0.0	86.9	5.75
Banc (tymor hir)	16.2	0.0	16.2	4.22
Awdurdodau Lleol	5.0	(5.0)	0.0	n/a
Prosiectau Penodol	1.6	(0.1)	1.5	n/a
<b>Cyfanswm Benthyciadau</b>	<b>109.7</b>	<b>(5.1)</b>	<b>104.6</b>	

Prif amcan y Cyngor wrth fenthycia arian yw taro cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a derbyn sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian, gyda'r ail amcan o hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe byddai cynlluniau hir dymor y Cyngor yn newid.

Gyda chyfraddau llog tymor byr yn parhau i fod yn llawer is na chyfraddau tymor hir, roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn fwy cost effeithiol yn y tymor agos i ddefnyddio adnoddau mewnol a benthycia benthyciadau tymor byr yn lle. Galluogodd y strategaeth hon i'r Cyngor leihau costau benthycia net (er gwaethaf incwm buddsoddi a ildiwyd) a lleihau risg gyffredinol y trysorlys.

## 6. GWEITHGAREDD BUDDSODDI

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau y Cyngor yn amrywio rhwng £62.9 a £147.9 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

### Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys

	<b>31.3.21</b>	<b>Symudiad</b>	<b>30.9.21</b>	<b>30.9.21</b>
	<b>Balans</b>	<b>6 mis</b>	<b>Balans</b>	<b>Incwm</b>
	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>£m</b>	<b>%</b>
Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig)	8.6	15.8	24.4	0.10
Awdurdodau Lleol	20.0	5.0	25.0	0.07
Swyddfa Rheoli Dyledion	0.0	24.0	24.0	0.01
Cronfeydd Marchnad Arian	26.0	(7.5)	18.5	0.01
Cronfeydd Cyfun	8.9	0.3	9.2	4.10
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau</b>	<b>63.5</b>	<b>37.6</b>	<b>101.1</b>	

Mae Cod CIPFA a chanllaw y llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y cyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffyg dalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Mae cyfraddau isel iawn arian parod tymor byr wedi bod yn nodwedd ers mis Mawrth 2020 pan dorrwyd Cyfradd Banc i 0.1% wedi arwain at yr enillion ar gronfeydd marchnad arian gwerth ased net anweddolrwydd isel (LVNAV MMFs) yn agos at sero hyd yn oed ar ôl i rai rheolwyr hepgor neu ostwng eu ffioedd dros dro. Ar hyn o bryd nid yw'r enillion negyddol net yn achos canolog y mwyafrif o reolwyr gronfeydd marchnad arian dros y tymor byr, a dylai toriadau neu hepgoriadau ffioedd arwain at lawr o sero i gynnyrch net cronfeydd marchnad arian, ond ni ellir diystyru'r posibilrwydd.

Mae cyfraddau adneuo gyda'r Cyfleuster Adnau Cyfrif Rheoli Dyled (DMADF) hefyd oddeutu sero i raddau helaeth.

Dalier £10m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan yr arian hwn, ond maent ar gael i dynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo a ecwiti cyfun hyd at 30 Medi 2021 isod:

STRATEGIC POOLED FUND PORTFOLIO			GWYNEDD				From:	22/02/2019		To:	30/09/2021
FUND NAME	ASSET CLASS	No of Units Held In Period	Current Value £	Capital Growth £	Dividends Earned £	Holding Period (yrs)	Capital Return	Income Return	Total Return	Volatility	
AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND	MULTI ASSET	1,158,480	1,254,947	-4,947	157,264	2.6	0.40%	12.58%	12.98%	15.6%	
CCLA - LAMIT PROPERTY FUND	PROPERTY	1,524,344	4,713,881	-286,119	493,097	2.6	-5.72%	9.86%	4.14%	5.7%	
NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND	MULTI ASSET	1,209,599	1,207,116	-42,884	136,604	2.6	-3.43%	10.93%	7.50%	7.8%	
SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND	EQUITY - UK	5,173,994	2,067,528	-447,780	428,897	2.5	-17.80%	17.05%	-0.75%	17.7%	
<b>GRAND TOTAL</b>			<b>9,243,472</b>	<b>-771,837</b>	<b>1,215,861</b>	<b>2.6</b>	<b>-7.71%</b>	<b>12.14%</b>	<b>-4.43%</b>	<b>8.0%</b>	
			Unrealised capital loss since purchase:		-756,529	Annualised income return:		4.33%			

Mae'n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun o £9.243m yn llai na'r buddsoddiad cychwynnol o £10m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynnyddoedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolog.

## Meincnodi Buddsoddi

Mae'r dilyniant o'r metrigau risg ac adenillion fel y dangosir yn y detholiadau o feincnodau buddsoddi chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

	Sgôr Risg	Statws Credyd	Datguddiad 'Bail-in'	Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau)	Cyfradd Adennill %
30.06.2021	4.66	A+	51%	35	1.43
30.09.2021	4.52	A+	41%	34	1.74
<b>AL tebyg</b>	<b>4.73</b>	<b>A+</b>	<b>58%</b>	<b>48</b>	<b>0.48</b>
<b>Bob AL</b>	<b>4.69</b>	<b>A+</b>	<b>69%</b>	<b>10</b>	<b>2.35</b>

## Perfformiad Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheoli trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn yw £0.4m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwylidig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2021/22 ychydig yn uwch yn £0.44m.

## 7. CYDYMFFURFIO

Gallaf gadarnhau bod gweithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yn cydymffurfio'n llawn gyda Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys cymeradwy'r Cyngor.

Arhosodd gweithgaredd benthyca a buddsoddi'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd.

### Ffin Dyled

	Uchafswm yn y cyfnod	30.9.21 Gwir	2021/22 Ffin Gweithredol	2021/22 Ffin Awdurdodedig	Cydymffurfio
Benthyciadau	£109.7m	£104.6m	£184m	£194m	✓
PFI a Prydlesau Cyllid	£1.5m	£1.5m	£6m	£6m	✓
<b>Cyfanswm Dyled</b>	<b>£111.2m</b>	<b>£106.1m</b>	<b>£190m</b>	<b>£200m</b>	✓

## Cyfyngiadau Buddsoddi

	Uchafswm Gwrthbarti yn y cyfnod	30.9.21 Gwir	2021/22 Terfyn Gwrthbarti	Cydym- ffurfio
Llywodraeth y DU	£50m	£24m	Diderfyn	✓
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	£5m	£5m	£10m	✓
Buddsoddiadau â sicrwydd	£0	£0m	£10m	✓
Banciau (ansicredig)	£5m	£5m	£5m	✓
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig)	£0	£0	£5m	✓
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)	£0m	£0m	£5m	✓
Cronfeydd marchnad arian	£7m	£7m	£10m	✓
Cronfeydd cyfun strategol	£5m	£5m	£10m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£0	£0	£10m	✓
Buddsoddiadau eraill	£0m	£0m	£5m	✓

## Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad at risgiau rheolaeth trysorlys wrth ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

**Diogelwch:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran gwerth ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwysu'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad.

	Targed	Gwir	Cydymffurfio
Sgôr credyd cyfartal y portffolio	6.0	4.52	✓

**Hylifedd:** Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd a thaliadau annisgwyl.

	30.9.21 Gwir	2021/22 Targed	Cydymffurfio
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£76.9m	£10m	✓

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfraddau llog. Bydd y terfynau uchaf ar effeithiau referniw o gynnydd a cwmp o 1% mewn cyfraddau llog, fel a ganlyn:

Dangosydd risg cyfradd llog	30.9.21 Gwir	Cyfyngiad 2021/22	Cydymffurfio
Y terfyn uchaf ar effaith referniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£573,968	£635,000	✓
Y terfyn uchaf ar effaith referniw blwyddyn o gwmp o 1% mewn cyfraddau llog	£0	£24,000	✓

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg ail gyllido. Mae'r terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

	Uchaf	Isaf	Gwir	Cydymffurfio
O dan 12 mis	1.46%	25%	0%	✓
12 mis ac o fewn 24 mis	1.50%	25%	0%	✓
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	11.37%	50%	0%	✓
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	6.74%	75%	0%	✓
10 mlynedd a throsodd	78.92%	100%	0%	✓

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

**Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Fwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy orfod ad-dalu ei fuddsoddiadau'n gynnar. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

	2021/22	2022/23	2023/24
Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£0m	£0m	£0m
Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£20m	£20m	£20m
<b>Cydymffurfio</b>	✓	✓	✓

## 8. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA sy'n berthnasol i'w swyddi.

## 9. DIWYGIADAU I GODAU CIPFA

Ym mis Chwefror 2021, lanswyd dau ymgynghoriad gan CIPFA ar newidiadau i'r Cod Darbodus a'r Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys. Yr oedd y rhain yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylid tynhau'r fframwaith darbodus ymhellach yn dilyn y benthycia parhaus gan rai awdurdodau at ddibenion buddsoddi. Ym mis Mehefin, rhoddodd CIPFA adborth o'r ymgynghoriad hwn.

Ym mis Medi, cyhoeddodd CIPFA'r Codau a'r Nodiadau Canllaw wedi'u hadolygu ar ffurf drafft, ac agorwyd y broses ymgynghori ddiweddaraf ar y newidiadau arfaethedig. Mae'r newidiadau yn cynnwys:

- Eglurder (a) na ddylai awdurdodau fenthycia i fuddsoddi yn bennaf ar gyfer adenillion ariannol (b) nad yw'n ddarbodus i awdurdodau wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi na gwario fyddai'n arwain at gynyddu'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, gan arwain o bosib at fenthyciadau newydd, os nad ydynt yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r awdurdod.
- Categoriadau buddsoddiadau fel rhai (a) at ddibenion rheolaeth trysorlys, (b) at ddibenion gwasanaethau a (c) at ddibenion masnachol.
- Diffinio rhesymau derbyniol i fenthycia arian: (i) gwariant ariannu cyfalaf sy'n gysylltiedig yn bennaf â chyflwyno swyddogaethau'r awdurdod, (ii) rheolaeth dros-dro o'r llif arian yng nghyd-destun cyllideb gytbwys, (iii) sicrhau fforddiadwyedd drwy geisio osgoi dod i gysylltiad â chyfraddau llog uwch yn y dyfodol a (iv) ail-gyllido benthyciadau cyfredol, gan gynnwys amnewid benthycia mewnl.
- Ar gyfer buddsoddiadau gwasanaethau a masnachol, yn ogystal ag asesiadau fforddiadwyedd a darbodusrwydd, cynnal asesiad o gymesuredd o ran capasiti ariannol cyffredinol yr awdurdod (h.y. a ellir amsugno colledion credadwy i gyllidebau neu gronfeydd wrth gefn).
- Dangosyddion Darbodus
  - Dangosydd newydd ar gyfer incwm net o fuddsoddiadau masnachol a gwasanaethau i'r llif refeniw net yn y gyllideb.
  - Cynnwys y meincnod rhwymedigaeth fel dangosydd darbodus rheolaeth trysorlys gorfodol. Mae CIPFA yn argymhell cyflwyno hwn fel siart o bedair elfen i'w cydbwysu - dyled ar fenthyciadau sydd heb eu talu; benthyciadau CFR, gofyniad benthyciadau net, meincnod rhwymedigaeth - dros o leiaf 10 mlynedd, ac yn ddelfrydol i gynnwys proffil dyledion aeddfed yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.
  - Eithrio incwm buddsoddi o ddiffiniad costau cyllido.
- Cynnwys materion ESG fel ystyriaeth o fewn Rheolaeth Risgiau TMP 1.
- Ffocws ychwanegol ar wybodaeth a sgiliau swyddogion ac aelodau etholedig sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau.

## 10. RHAGOLYGNON AR GYFER GWEDDILL 2021/22

	Dec-20	Mar-21	Jun-21	Sep-21	Dec-21	Mar-22	Jun-22	Sep-22	Dec-22	Mar-23	Jun-23	Sep-23	Dec-23
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.00	0.00	0.15	0.15	0.15	0.15	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30	0.30
Arlingclose Central Case	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10	0.10
Downside risk	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50	0.50

Mae Arlingclose yn disgwyl i'r Gyfradd Banc gynyddu yn Ch2 2022. Credwn fod hyn wedi'i yrru gan awydd Banc Lloegr i symud o lefelau argyfwng yn gymaint ag ofn pwysau chwyddiant.

Mae buddsoddwyr wedi cynnwys sawl cynnydd yn y Gyfradd Banc i 1% erbyn 2024 yn eu prisiadau. Er bod Arlingclose yn credu y bydd y Gyfradd Banc yn codi, ni fydd mor uchel â

disgwyliadau'r marchnadoedd.

Mae'r economi byd-eang yn parhau i adfer o'r pandemig, ond mae cyfnod mwy heriol wedi dechrau. Mae'r ail-afael yn y galw wedi arwain at y cynnydd disgwylidig mewn pwysau chwyddiant, ond mae'r ffactorau sydd wedi amharu ar gyflenwadau wedi chwyddo'r effeithiau, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y cyfraddau twf yn is yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y DU o ganlyniad i effaith Brexit.

Ehangodd GDP y DU yn Ch2 yn gynt na'r disgwyl i gychwyn, ond bydd y 'pingdemic' a'r problemau diweddar gyda chyflenwadau yn arwain at GDP yn eithaf disymud yn Ch3. Mae'r rhagolygon hefyd yn ymddangos yn wannach. Mae gwariant gan aelwydydd, sef gyrrwr yr adferiad hyd yma, o dan bwysau gan gyfuniad o gynnydd ym mhrisiau ynni manwerthol, diwedd rhaglenni cefnogaeth y llywodraeth a chynnydd mewn trethi yn fuan. Bydd gwariant y Llywodraeth, sef gyrrwr arall yr adferiad, yn arafu'n sylweddol wrth i'r mesurau brys i achub yr economi ddod i ben.

Cynyddodd chwyddiant i 3.2% ym mis Awst. Bydd cyfuniad o ffactorau yn gyrru hyn i dros 4% yn y tymor agos. Er bod disgwyl i'r ffactorau dros-dro sy'n effeithio ar chwyddiant, gan gynnwys effaith sail isel 2020, lacio dros amser, yn ddiweddar mae'r MPC wedi cyfathrebu ofn y bydd y ffactorau byrhoedlog hyn yn bwydo i ddisgwyliadau chwyddiant hirdymor, fydd yn gofyn am bolisi ariannol cryfach i'w rheoli. Mae hyn wedi gyrru disgwyliadau cyfraddau chwyddiant sy'n sylweddol uwch.

Mae'r elfennau anghybwys o ran cyflenwadau yn amlwg yn y farchnad lafur. Er bod twf cyflogau yn uwch ar hyn o bryd o ganlyniad i ffactorau cydrannol a ffactorau sail, ceir hanesion niferus am gyflogau uwch mewn sectorau penodol, sy'n gyrru disgwyliadau chwyddiant. Mae ansicrwydd a fydd cynnydd ar sail eang mewn cyflogau yn bosib yng nghyd-destun y pwysau ar fusnesau.

Cafwyd cynnydd sydyn mewn enillion bondiau yn dilyn cofnodion FOMC a MPCO ym mis Medi, a nododd fod gan y ddau fanc canolog lai o oddefgarwch ar gyfer chwyddiant uwch na'r canfyddiad blaenorol. Mae MPC yn arbennig wedi cryfhau'r arwyddion hyn er gwaetha'r data economaidd mwy meddal. Mae buddsoddwyr bondiau yn disgwyl cyfraddau llog uwch yn y tymor agos, ond mae'n amlwg eu bod yn ansicr am bolisiau'r banciau canolog.

Ymddengys bod MPC yn chwarae'r ddwy ochr, ond mae wedi datgan yn glir ei fwriad i dynhau'r polisi, o bosib wedi'i yrru gan awydd i droi cefn ar y lefelau argyfwng. Bydd y rhagolygon economaidd yn heriol, ond mae'r arwyddion gan wneuthurwyr polisi yn awgrymu y bydd y Gyfradd Banc yn codi os na fydd y data yn awgrymu bod arafu mwy sylweddol.



# Eitem 7

CYFARFOD: PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD: 18 TACHWEDD 2021

TEITL: ASESAD CYNALIADWYEDD ARIANNOL

PWRPAS: I GYFLWYNO ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU, A GOFYN I'R PWYLLGOR YSTYRIED Y CYNNEWYS, YNGHYD AG YMATEBION CYNGOR GWYNEDD I'R ARGYMHELLION

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS

AWDUR: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

1. Amgaeaf yr adroddiad **Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol - Cyngor Gwynedd**. Bu adroddiadau cyffelyb **gan Archwilio Cymru** ar holl awdurdodau lleol Cymru.
2. Derbyniwyd y fersiwn derfynol ar 5 Hydref, a bydd yr Archwilydd Arweiniol perthnasol o Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 18 Tachwedd i gyflwyno'i ganfyddiadau.
3. Mae'r adroddiad yn cynnwys pedwar o argymhellion sydd angen ymatebion gan Gyngor Gwynedd. Mae'r ymatebion wedi'u nodi isod -

Argymhelliad Archwilio Cymru	Ymateb Cyngor Gwynedd i'r argymhelliad
<b>Cynllun Ariannol Tymor Canolig</b>	
<b>A1</b> - Dylai'r Cyngor ddiweddarau ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn flynyddol i helpu â chynllunio ariannol.	<p>Rydym yn cytuno ac wedi diweddarau ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</p> <p>Yng nghyfarfod 28 Medi 2021 o'r Cabinet, derbyniwyd adroddiad 'Strategaeth Cyllideb 2022/23' roedd yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (ar gyfer 2022-23 – 2024-25), tra'n nodi, yn y cyd-destun cyfredol, fod cynllunio ariannol yn hynod heriol.</p> <p>Cytunwyd, pan fydd y Cyngor yn wynebu llai o ansicrwydd ariannol, ar ôl i effaith Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr Llywodraeth y DU ar ariannu craidd a grantiau'r dyfodol ddod yn gliriach, bydd yr Adran Cyllid yn sefydlu cynllun ariannol tymor canolig mwy manwl i'r Cyngor newydd.</p>

Argymhelliad Archwilio Cymru	Ymateb Cyngor Gwynedd i'r argymhelliad
<b>Pennu'r Gyllideb</b>	
<b>A2</b> - Dylai'r Cyngor ddatblygu ymhellach y defnydd o ddata gweithgaredd wrth bennu ei gyllidebau a arweinir gan alw.	<p>Wrth lunio cyllidebau, defnyddir ystadegau demograffi i osod lefel dyraniadau cyllideb i'r adrannau Addysg, Gofal Oedolion a Phlant.</p> <p>Ymhellach, mae'r drefn flynyddol o wahodd bidiau yn rhoi cyfle i'r adrannau sicrhau adnodd ychwanegol i gwrdd â galw a phwysau ychwanegol ar wasanaethau.</p> <p>Ar gyfer 2021/22, cymeradwywyd nifer o fidiau oedd yn ymateb i alw ychwanegol, gan gynnwys adnoddau ychwanegol –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- i'r Adran Plant, o ganlyniad i nifer cynyddol angen lleoliadau,</li> <li>- i'r Adran Oedolion, am gynnydd mewn galw yn y maes Anabledd Dysgu, ac</li> <li>- i'r Adran Addysg, am gynnydd yn y disgyblion sydd angen cludiant tacsï i'r ysgolion.</li> </ul>

Argymhelliad Archwilio Cymru	Ymateb Cyngor Gwynedd i'r argymhelliad
<b>Adolygu'r Gyllideb – Dyraniadau Grant Ychwanegol a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn</b>	
<b>A3</b> - Dylai'r Cyngor gynnwys dyraniadau grant sylweddol ar lefelau gwasanaeth yn ei adolygiad o'r gyllideb a lliniaru effeithiau unrhyw drosglwyddiad yn ystod y flwyddyn i gronfeydd wrth gefn i alluogi adrodd tryloyw o'r sefyllfa ariannol.	<p>O ran dyraniad grantiau, wrth gwrs, roedd 2020/21 yn flwyddyn cwbl eithriadol pryd byddai neb wedi medru rhagweld ardrwiad yr argyfwng Covid a graddau'r cymorth ariannol derbyniwyd ymhen hir a hwyr o gronfa caledi Llywodraeth Cymru.</p> <p>Gyda synnwyr trannoeth, rydym yn cytuno ac wedi addasu'r arweiniad i'n cyfrifwyr er mwyn gynnwys dyraniadau grant sylweddol ar lefel ein gwasanaethau yn yr adolygiad o'r gyllideb 2021/22 cyflwynwyd i'r Cabinet 12 Hydref 2021.</p> <p>Adroddir yn dryloyw mewn adolygiadau o'r gyllideb ar unrhyw drosglwyddiad i/o gronfeydd wrth gefn corfforaethol eu natur yn ystod y flwyddyn.</p>

Argymhelliad Archwilio Cymru	Ymateb Cyngor Gwynedd i'r argymhelliad
<b>Adolygu Cynlluniau Arbed</b>	
<b>A4</b> - Dylai'r Cyngor gynnal adolygiadau cynlluniau arbed hanesyddol o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau bod modd eu cyflawni o hyd.	<p>Rydym yn cytuno ac wedi adolygu'r cynlluniau arbed hanesyddol yng nghyfarfod 26 Ionawr 2021 o'r Cabinet.</p> <p>Derbyniwyd adroddiad 'Sefyllfa'r Arbedion' roedd yn adolygu cynlluniau unigol, gan symud y proffil cyflawni ar gyfer rhai cynlluniau i 2022/23 a chydabod bod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £848,040 gan eu dileu o'r gyllideb.</p> <p>Roeddem o hyd yn bwriadu adolygu'r cynlluniau arbed hanesyddol eto, ac yn bwysicach fyth, sefyllfa'r cynlluniau llithrwyd i 2022/23, cyn sefydlu cyllideb y Cyngor erbyn 2022/23.</p>

4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi cynnwys adroddiad Archwilio Cymru yng nghyswllt cynaliadwyedd ariannol y Cyngor, ystyried yr argymhellion a'r ymatebion rwyf wedi darparu ar ran y Cyngor, a sylwebu fel bo angen.

#### **Atodiad**

**Adroddiad Archwilio Cymru:** Aseiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd

## Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn Archwilio: 2020-21

Mis/Blwyddyn Cyhoeddi: Medi 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2436A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a wnaed yn unol ag adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Gall hefyd lywio astudiaeth i wella gwerth am arian o dan adran 41 o ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cenedlaethol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 45 o'r Cod yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [info.officer@audit.wales](mailto:info.officer@audit.wales).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond mae sawl her ariannol o hyd.

Yr hyn y buom yn edrych arno a pham	4
Argymhellion	5
Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond mae sawl her ariannol o hyd	6
Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi'i liniaru o ganlyniad i gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru	6
Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol glir ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond mae angen cynllunio mwy ar gyfer y tymor canolig a chanolbwyntio ar wella cynaliadwyedd	7
Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu rheoli'n ganolog ac maent yn gyfle i drawsnewid a gwella gwasanaethau	9
Mae gan y Cyngor orwariant sy'n ailddigwydd mewn blwyddyn mewn gwasanaethau allweddol, ac mae adroddiadau monitro'r gyllideb yn amrywio o'r sefyllfa ariannol derfynol a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn	11
Gall parhau i gario drosodd arbedion heb eu cyflawni achosi pwysau ariannol heb ei ddatys ar wasanaethau; bydd canfod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol	13
Mae hylifedd y Cyngor wedi bod yn sefydlog yn y cyfnod 2015-16 i 2019-20 ac mae wedi codi ychydig yn 2020-21	16

## Yr hyn y buom yn edrych arno a pham

- 1 Cynhaliwyd yr asesiad hwn am fod cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn risg i gynghorau sy'n rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd o adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei lywio gan brofiadau rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am sefyllfa ariannol cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol i neilltuo llai o adnoddau i lywodraeth leol ynghyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Cynhaliwyd prosiect tebyg gennym yn 2019-20, cyn y pandemig COVID-19.
- 2 Roedd ein hasesiad 2020-21 o gynaliadwyedd ariannol cynghorau wedi'i gynnal mewn dau gam. Roedd Cam 1 yn asesiad gwaelodlin o effaith gychwynnol COVID-19 ar sefyllfa ariannol cynghorau. Roedd Cam 1 yn edrych ar: y sefyllfa diwedd blwyddyn ar gyfer 2019-20; y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ar gyfer 2020-21; ac amcanestyniadau ar gyfer chwarter 2 ar gyfer 2020-21. Yn dilyn Cam 1, ym mis Hydref 2020 cyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol gennym – **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i Bandemig COVID-19**<sup>1</sup>. Canfuom fod cynghorau a Llywodraeth Leol wedi cydweithio'n dda â'i gilydd i liniaru effaith y pandemig hyd yma, ond mae cynaliadwyedd y sector yn y dyfodol yn her barhaus.
- 3 Mae'r pandemig wedi cael effaith uniongyrchol a sylweddol ar gyllid y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Mae'r adroddiad cryno wedi gosod sefyllfa gwaelodlin lefel uchel, sy'n cynnwys sefyllfa cronfeydd wrth gefn cynghorau cyn y pandemig. Roedd hefyd yn nodi goblygiadau ariannol gychwynnol y pandemig i gynghorau lleol a maint yr her a ragwelir yn y dyfodol.
- 4 Mae'r adroddiad hwn yn cwblhau cam 2 ein gwaith ar asesu cynaliadwyedd ariannol yn ystod 2020-21. Fel rhan o hyn rydym yn cynhyrchu adroddiad lleol ar gyfer pob un o'r 22 prif gyngor yng Nghymru.
- 5 Cynhaliwyd yr asesiad hwn yn ystod mis Mawrth 2021.

<sup>1</sup> Archwilio Cymru, [Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o Ganlyniad i Bandemig COVID-19](#), Hydref 2020.

## Argymhellion

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

#### Argymhellion

##### Cynllun Ariannol Tymor Canolig

A1 Dylai'r Cyngor ddiweddarau ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig yn flynyddol i helpu â chynllunio ariannol.

##### Pennu'r Gyllideb

A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu ymhellach y defnydd o ddata gweithgaredd wrth bennu ei gyllidebau a arweinir gan alw.

##### Adolygu'r Gyllideb – Dyraniadau Grant Ychwanegol a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn

A3 Dylai'r Cyngor gynnwys dyraniadau grant sylweddol ar lefelau gwasanaeth yn ei adolygiad o'r gyllideb a lliniaru effeithiau unrhyw drosglwyddiad yn ystod y flwyddyn i gronfeydd wrth gefn i alluogi adrodd tryloyw o'r sefyllfa ariannol

##### Adolygu Cynlluniau Arbed

A4 Dylai'r Cyngor gynnal adolygiadau cynlluniau arbed hanesyddol o leiaf unwaith y flwyddyn i sicrhau bod modd eu cyflawni o hyd.



Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol, ond mae sawl her ariannol o hyd

## Mae effaith uniongyrchol COVID-19 ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor wedi'i liniaru gan gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru

- 6 Mae'r adran hon yn edrych ar yr effaith mae COVID-19 wedi'i gael hyd yma ar sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ba raddau y cafodd hyn ei liniaru gan gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.
- 7 Canfuom:
  - fod y Cyngor wedi ymateb yn gyflym i'r pandemig, gan adrodd i'r Cabinet ar 19 Mai 2020 **Effeithiau COVID-19 ar gyllideb 2020-21** gan nodi bylchau cyllido a galw am gymorth Llywodraeth Cymru;
  - bod y Cyngor wedi wynebu £14.6 miliwn o wariant ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 a £7.8 miliwn o incwm a gollwyd yn ystod 2020-21, ac yn cael £18.5 miliwn o Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru a £2.1 miliwn o ffrydiau cyllido eraill Llywodraeth Cymru;
  - bod amcangyfrif o £3.2 miliwn o wariant ychwanegol a £0.2 miliwn o incwm a gollwyd y bydd yn rhaid ei ysgwyddo ac nad yw wedi'i gynnwys o fewn cyllid ychwanegol;
  - bod cyllideb 2020-21 yn tybio y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i wneud iawn am gostau ychwanegol ac incwm a gollir;
  - bod cyllideb 2021-22 yn tybio na fydd newid yn y galw nac y bydd gostyngiad mewn gweithgareddau cynhyrchu incwm ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethu o ganlyniad i'r pandemig;
  - bod y Cyngor yn cydnabod bod y pandemig wedi gwneud cynllunio ariannol yn hynod o anodd a thynnwyd sylw'r Cabinet at fwch cyllido o hyd at £8 miliwn ar gyfer 2021-22 ar 13 Hydref 2020 ar gyfer dibenion cynllunio ariannol ond ni chyhoeddodd Gynllun Ariannol Tymor Canolig;
  - bod yr adroddiad i'r Cabinet yn nodi 12 ffactor a oedd yn golygu lefel o ansicrwydd ariannol heb ei debyg a allai olygu y byddai'r ystod o ganlyniadau posibl yn cynyddu'n sylweddol ar ôl 2021-22 o ganlyniad i beidio â chynhyrchu Cynllun Ariannol Tymor Canolig; a
  - bod y Cyngor yn bwriadu cynllunio ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021-22 yn yr haf ac nid yw wedi cyfrifo effaith COVID-19 yn ystod y tymor canolig.

## Arddangosyn 2: cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21

Mae'r tabl isod yn dangos gwariant ychwanegol ac incwm a gollwyd gan y Cyngor yn ystod 2020-21, o ganlyniad i COVID-19, a faint o hyn a ddigolledwyd drwy gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Y swm ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i wario o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21.	£14.6 miliwn
Yr incwm y mae'r Cyngor wedi'i golli o ganlyniad i COVID-19 yn ystod 2020-21.	£7.8 miliwn
Maint y cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020-21 i liniaru effaith COVID-19.	£18.5 miliwn
Cost COVID-19 i'r Cyngor yn ystod 2020-21 ar ôl ystyried cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.	£3.9 miliwn
Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am 'cynilion na chyflawnwyd' a 'trawsnewid digidol'.	£2.1 miliwn

**Mae gan y Cyngor strategaeth ariannol glir ar gyfer y flwyddyn gyfredol ond mae angen cynllunio mwy ar gyfer y tymor canolig a chanolbwyntio ar wella cynaliadwyedd**

### Pam y mae cynllunio ariannol strategol yn bwysig

8 Mae strategaeth ariannol glir a chadarn yn bwysig i ganfod lefel debygol y cyllid fydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel y galw a ragwelir am, a'r gost o ddarparu gwasanaethau. O gofio'r pwysau cyllido diweddar a'r pwysau a ragwelir fydd yn wynebu pob cyngor mae'n bwysig deall sut mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn benodol sut y bydd yn cau'r bylchau cyllido a ragwelir.

Canfuom:


- adroddwyd gennym yn ein Hasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Gwynedd a gyhoeddwyd fis Mawrth 2020 fod y **Cyngor mewn sefyllfa ariannol gymharol gref ar hyn o bryd ac mae ei strategaeth ariannol drosfwaol wedi cefnogi cydnerthedd ariannol yn dda; fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau'n profi gorwario blynyddol sylweddol ac nid**

**yw'r holl arbedion yn cael eu gwireddu, gan greu risg i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy.**

- mae'r Cyngor yn ystyried nifer o ffactorau ariannol ac economaidd wrth bennu ei gyllideb ac mae'n defnyddio gwybodaeth ddemograffig i benderfynu ar y lefelau lle pennir cyllidebau allweddol sy'n ymateb i'r galw
- mae'r Cyngor wedi gwneud dyraniadau cyllideb ychwanegol sylweddol i wasanaethau allweddol sy'n ymateb i'r galw fel rhan o'r broses pennu cyllideb yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r gwariant ar rai gwasanaethau'n parhau i fod yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael
- er bod y rhan fwyaf o gyllidebau'r Cyngor o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, roedd rhai gwasanaethau allweddol sy'n ymateb i'r galw, Plant a Chefnogi Teuluoedd yn fwyaf arbennig, wedi bod o dan bwysau ariannol am gyfnod hir, sy'n arwain at bryderon ynglŷn â'r tybiaethau sylfaenol a ddefnyddiwyd fel sail i broses pennu'r gyllideb
- mae gan y Cyngor gynlluniau, sy'n cynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio ei lefel gymharol uchel o gronfeydd wrth gefn i gau'r bwloch cyllido
- mae'r Cyngor wedi oedi cyn cyhoeddi ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (ar gyfer 2021-22 – 2023-24) tan haf 2021, i aros am Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Canghellor y DU. Nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi Cynllun Ariannol Tymor Canolig i gyd-fynd â chyllideb 2020-21
- cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig diwethaf ar 7 Mawrth 2019, a oedd yn edrych ar y cyfnod 2019-20 i 2021-22.

**Arddangosyn 3: roedd gan y Cyngor fwloch cyllido o £3.5 miliwn yn 2021-22 ac nid yw wedi cyhoeddi unrhyw amcangyfrifon ar gyfer 2022-23 a 2023-24.**

Mae'r graff hwn yn dangos y bwloch cyllido a nodwyd gan y Cyngor am y tair blynedd ganlynol.



## Mae gan y Cyngor lefel uchel o gronfeydd wrth gefn, ac mae'r rhan fwyaf yn cael eu rheoli'n ganolog ac maent yn gyfle i drawsnewid a gwella gwasanaethau

### Pam y mae rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy'n bwysig

9 Mae cael lefelau iach o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â'u defnyddio i ariannu pwysau cyllido annisgwyl, gall cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fod yn ffynhonnell gyllido bwysig i gefnogi mentrau 'buddsoddi i arbed' sy'n ceisio lleihau cost barhaus darparu gwasanaethau. Bydd cynghorau sy'n defnyddio eu cronfeydd wrth gefn heb gynllunio i wneud hynny er mwyn cau bylchau yn eu cyllidebau refeniw yn lleihau eu cronfeydd wrth gefn ac yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau annisgwyl ar y gyllideb yn y dyfodol.

Canfuom fod:

- gan y Cyngor £71.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar 31 Mawrth 2020, sydd yn 26.4% o gost net gwasanaethau. Cynyddodd y cronfeydd wrth gefn y gellid eu defnyddio i £99.6 miliwn ar 31 Mawrth 2021 sy'n 40.8% o gost net gwasanaethau<sup>2</sup>.
- mae Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio y Cyngor wedi cynyddu 86.5% yn ystod y pedair blynedd diwethaf o 2017 i 2021.
- mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw mewn balansau dynodedig ac mae adolygiad o enwau a disgrifiadau o'r cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd yn dangos bod y rhan fwyaf o falansau'n cael eu cadw yn ganolog yn hytrach na chan wasanaethau sy'n ymateb i'r galw
- ymddengys nad oes llawer o dystiolaeth i ddangos defnydd o gronfeydd wrth gefn i wella a thrawsnewid gwasanaethau, a all yn ei dro helpu â chynaliadwyedd y Cyngor
- mae ymrwymadau gwaelodlin cyllido o ffynonellau cyllido untro yn arwain at bwysau cyllido heb ei ddatrys yng nghyllideb blynnyddoedd y dyfodol.

<sup>2</sup> Datganiad Cyfrifon Heb Eu Harchwilio 2020/21

#### Arddangosyn 4: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a oedd gan y Cyngor yn ystod 2020-21 a'r pedair blynedd flaenorol fel cyfran o gost net y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.


	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Cost Net Gwasanaethau mewn £ miliynau <sup>3</sup>	230.0	235.9	235.7	250.1	244.2
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio mewn £ miliynau <sup>4</sup>	53.4	52.4	64.9	71.1	99.6
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio fel canran o gost net gwasanaethau <sup>5</sup>	23.2%	22.2%	27.5%	28.4%	40.8%
Cymhariaeth â chynghorau eraill Cymru	6/22	6/22	3/22	3/22	[nid oes cymhariaeth 2020-21 ar gael]

<sup>3</sup> Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir i'r gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad o Gyllido Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyledion. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

<sup>4</sup> Wrth sôn am gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio rydym yn cyfeirio at gyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad oes dim byd cyfreithiol sy'n atal cynghorau rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio i ddiben arall: Datganiad o Gyfrifon

<sup>5</sup> Cyfrifiad Archwilio Cymru

**Arddangosyn 5: Cyfanswm y Cronfeydd Wrth gefn y Gellir eu Defnyddio fel canran o Gost Net Gwasanaethau prif gynghorau Cymru yn 2019-20**



**Mae gan y Cyngor orwariant sy'n ailddigwydd yn ystod y flwyddyn mewn gwasanaethau allweddol, ac mae adroddiadau monitro'r gyllideb yn amrywio o'r sefyllfa ariannol derfynol a adroddwyd ar ddiwedd y flwyddyn**

**Pam y mae'n bwysig rhagamcanu gwariant yn gywir**

10 Mae'n bwysig cadw gorwariant a thanwariant o dan reolaeth a sicrhau bod y gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau a gynlluniwyd. Os nad yw cyngor yn gallu rhagamcanu a chynllunio ei wariant yn gywir, mae risg y bydd yn creu pwysau ariannol annisgwyl a allai beryglu ei allu i bennu cyllideb gytbwys. Gall patrymau tanwariant sylweddol leihau gallu cyngor i wireddu ei brif amcanion neu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Canfuom:

- gwnaeth gwasanaethau'r Cyngor cyn addasiadau a argymhellwyd orwario yn 2019-20 ac roedd yn amcangyfrif gorwariant ar lefel gwasanaeth yn 2020-21 yn ei 'Adolygiad Diwedd Tachwedd'
- nad yw 'Adolygiad Cyllideb Diwedd Tachwedd 2020' 2020-21 yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa ariannol y Cyngor, gan nad yw'r amcangyfrif o orwariant ariannol o £4.69 miliwn yn yr atodiadau'n cynnwys trosglwyddo cronfeydd wrth gefn o £1.3 miliwn a chyllid grant sydd o leiaf £3 miliwn. Mae'r ddau hepgoriad gyda'i gilydd yn lleihau'r diffyg o £4.69 miliwn gymaint

â £4.3 miliwn i ddiffyg sylweddol is o £390,000. Er bod yr uchod wedi'i esbonio yn yr adroddiad naratif, gallai'r hepgoriad yn y dadansoddiad gwasanaeth gamarwain a drysu darllenwyr.

- mae'r ffigurau 12-mis terfynol ar gyfer 2019-20 yn cofnodi gorwariant alldro o £2.6 miliwn ar ôl amcangyfrif gorwariant o £4.58 miliwn yn yr 'Adolygiad Diwedd Tachwedd'
- mae arfer y Cyngor o drosglwyddo gwarged i gronfeydd wrth gefn fel rhan o'i ymarferiad rheoli'r Gyllideb i bob pwrpas yn gorbwysleisio'r diffyg net a amcangyfrif ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd trosglwyddo £1.09 miliwn o danwariant i gronfeydd wrth gefn yn 2019-20 i bob pwrpas yn cynyddu'r gorwariant net o £3.49 miliwn i £4.583 miliwn
- roedd y Cyngor hyd at 2020-21 wedi nodi ond heb roi sylw i batrymau arwyddocaol o orwariant yn ystod y flwyddyn mewn rhai o'i wasanaethau allweddol. Ni ddefnyddwyd gwybodaeth lefel gweithgaredd i bennu cyllidebau mewn meysydd galw allweddol. Byddai gweithgarwch cadarn a data costau ynghyd â dadansoddiad manwl o dueddiadau dros gyfnod o flynyddoedd yn galluogi'r Cyngor i bennu cyllidebau sy'n seiliedig ar ddefnyddwyr gwasanaeth gwirioneddol yn hytrach na demograffeg. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i ailymuno â'r grŵp o gynghorau sydd â gwasanaethau sy'n perfformio'n fwy cyson o fewn eu cyllideb.

## Arddangosyn 6: Swm y gorwariant/tanwariant o'i gymharu â chyfanswm y gyllideb referniw net

Mae'r arddangosyn isod yn dangos swm y gorwariant neu danwariant yng nghyllideb referniw net gyffredinol y Cyngor yn dilyn trosglwyddo i ac o gronfeydd wrth gefn yn y pedair blynedd diwethaf. Nid yw'r cyngor yn adrodd ar y cyllidebau corfforaethol arfaethedig i'r cabinet fel rhan o'i Adolygiadau Cyllidebol

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Cyllideb referniw net wreiddiol £ miliynau <sup>6</sup>	241.0	246.0	259.6	265.4	280.3
Alldro Referniw Net Gwirioneddol <sup>7</sup>	240.2	246.6	258.4	265.4	279.3
Swm y (gwarged)/gorwariant gwirioneddol <sup>8</sup>	(0.8)	0.6	(1.2)	0.0	(1.0)

<sup>6</sup> Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir i'r gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad o Gyllido Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Referniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyledion. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon


<sup>7</sup> Wrth sôn am gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio rydym yn cyfeirio at gyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad oes dim byd cyfreithiol sy'n atal cynghorau rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio i ddiben arall: Datganiad o Gyfrifon

<sup>8</sup> Cyfrifiad Archwilio Cymru

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb referniw net	-0.3%	0.2%	0.4%	0%	-0.4%

### Arddangosyn 7: perfformiad o'i gymharu â'r gyllideb yn ôl gwasanaeth

Mae'r arddangosyn isod yn dangos y gorwariant blynyddol yn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Mae'r Cyngor wedi dyrannu cyllideb ychwanegol i'r gwasanaeth; fodd bynnag, mae'r gwariant gwirioneddol yn dal yn fwy na'r gyllideb sydd ar gael.



**Gall parhau i gario drosodd arbedion heb eu cyflawni achosi pwysau ariannol heb ei ddatys ar wasanaethau; bydd canfod a chyflawni arbedion yn fwy o her yn y dyfodol**

### Pam y mae'r gallu i ganfod a chyflawni cynlluniau arbed yn bwysig

- 11 Mae'r gallu i bennu meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac yna mynd ati i gyflawni'r arbedion hynny, yn bwysig i sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus mewn cyd-destun lle ceir pwysau ariannol cynyddol. Os na chaiff cynlluniau arbed eu cyflawni, gall arwain at orwariant sy'n galw am ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig ac yn cynyddu maint yr arbedion y bydd angen eu gwneud mewn blynyddoedd i ddod i wneud iawn amdano. Os na chaiff cynlluniau arbed eu cyflawni a bod gofyn i feysydd gwasanaeth wneud arbedion na chawsant



eu cynllunio, ceir mwy o risg na fydd arbedion yn gydnaws â blaenoriaethau'r Cyngor neu y bydd datrysiadau 'tymor byr' yn cael eu canfod nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

#### Canfuom

- yn ystod y cyfnod 2016-17 i 2019-20, fod y Cyngor wedi cyflawni 84% o gynlluniau arbed ar gyfartaledd yn y flwyddyn y bwriadwyd eu cyflawni.
- gwnaeth y Cyngor barhau i weithredu'r elfen na chyflawnwyd o gynlluniau arbed, gan fynd ymlaen i gyflawni 97% o'r cynlluniau a fwriadwyd ar gyfer y cyfnod 2016-17 i 2019-20.
- bod y Cyngor yn cydnabod bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ei allu i gyflawni arbedion, gan arwain at £1.7 miliwn o lithriant i 2021-22, gydag £1.0 miliwn o gynlluniau'n cael eu hailbroffilio 2022-23, a £0.8 miliwn o gynlluniau'n cael eu dileu
- mae perfformiad diweddar yn awgrymu ei bod yn fwy anodd cyflawni'r holl arbedion a fwriadwyd yn y cyllidebau Gofal Cymdeithasol o fewn y flwyddyn. Mae'r anallu i gyflawni arbedion dros gyfnod hwy yn awgrymu y gallai'r arbedion a fwriadwyd fod yn afrealistig. Gall disgwyliadau i wneud arbedion nad ydynt yn cael eu cyflawni arwain at ddadrithiad ymhlith y rhai sy'n ceisio cyrraedd targedau a chyllidebau afrealistig.
- yn rhan o'r adolygiad a gwblhawyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2021, dileuwyd £1.4 miliwn o gynlluniau arbed a gohirwyd £3.2 miliwn i'r blynyddoedd canlynol.

## Arddangosyn 8: Arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2016-17 i 2020-21 fel canran o arbedion a fwriadwyd

Mae'r arddangosyn a ganlyn yn dangos faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed drwy arbedion a gynlluniwyd rhwng 2016-17 a 2020-21 a faint o'r arian hwnnw a arbedwyd ganddo mewn gwirionedd yn y flwyddyn cyflawni a fwriadwyd.

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Cyfanswm yr arbedion a gynlluniwyd mewn £ miliynau <sup>9</sup>	9.2	7.4	2.5	5.3	3.9
Yr arbedion a fwriadwyd a gyflawnwyd mewn £ miliynau yn y flwyddyn y bwriadwyd eu cyflawni <sup>10</sup>	8.7	6.0	1.8	4.0	1.6
Yr arbedion a fwriadwyd nas cyflawnwyd mewn £ miliynau yn y flwyddyn y bwriadwyd eu cyflawni	0.5	1.4	0.7	1.3	2.3
Canran yr arbedion a gyflawnwyd yn y flwyddyn y bwriadwyd eu cyflawni	94.3%	80.9%	73.1%	75.6%	41.0%

- 12 Roedd y gallu i gyflawni cynlluniau arbed o fewn gwasanaethau'r Cyngor yn amrywiol. Er bod rhai adrannau wedi cyflawni'r rhan fwyaf neu'r holl arbedion a gynlluniwyd, mae 'Cynlluniau'n llithro a gyda rhai risgiau i'w cyflawni' dros gyfnod estynedig. Mae hyn ar ei fwyaf amlwg yn Oedolion; Iechyd a Llesiant; Plant a Chefnogi Teuluoedd, ac i raddau llai mewn gwasanaethau eraill. Mae'r cyngor wedi dileu rhai o'r arbedion, ond mae swm sylweddol yn dal i fod wedi'i oedi i'w cyflawni mewn blynyddoedd i ddod.
- 13 Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni arbedion na weithredwyd yn y flwyddyn a gynlluniwyd gan gyflawni cyfartaledd o 97% yn ystod y cyfnod 2016-17 i 2019-20.

<sup>9</sup> Y gwerth a ddefnyddir yw cost net gwasanaethau a godir i'r gronfa gyffredinol o'r Dadansoddiad o Gyllido Gwariant, llai unrhyw gost gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai, ynghyd â phraeseptau, ardollau a llog dyledion. Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon

<sup>10</sup> Wrth sôn am gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio rydym yn cyfeirio at gyfanswm balans y gronfa gyffredinol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd nad oes dim byd cyfreithiol sy'n atal cynghorau rhag eu hailgyfeirio i'w defnyddio i ddiben arall: Datganiad o Gyfrifon

## Mae hylifedd y Cyngor wedi bod yn sefydlog yn y cyfnod 2015-16 i 2019-20 ac mae wedi codi ychydig yn 2020-21

### Pam y mae sefyllfa hylifedd y Cyngor yn bwysig

- 14 Pam y mae cymharu asedau cyfredol â rhwymedigaethau cyfredol (hylifedd) yn bwysig:
- mae'n dangos sut mae cyngor yn rheoli ei gyllid tymor byr
  - er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n aml i weld a fydd sefydliadau'n gallu talu eu dyledion yn y tymor byr, nid yw hyn yn debygol o fod yn risg i gynghorau am eu bod yn gallu cael benthyciadau tymor byr. Mae hefyd, fodd bynnag, yn gweithredu fel dangosydd o'r modd mae cyngor yn rheoli ei gyllid tymor byr
  - dylai cynghorau sydd â chymarebau hylifedd isel sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i dalu eu rhwymedigaethau
  - efallai bod costau ychwanegol i gynghorau sy'n dibynnu ar fenthycia tymor byr i dalu dyledion
  - dylai cynghorau sydd â chymarebau hylifedd uchel ystyried a ydynt yn rheoli eu hasedau cyfredol yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- 15 Canfuom:
- fod hylifedd y Cyngor wedi bod yn sefydlog ar y cyfan yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac nid yw hylifedd cymharol gyson yn golygu pryderon ynglŷn â chynaliadwyedd ariannol; ac
  - nid yw'r Cyngor yn rhagweld unrhyw newid yn sefyllfa ei hylifedd yn ystod y tair blynedd nesaf.

### Arddangosyn 9: cymhareb cyfalaf gweithio 2015-16 i 2019-20

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Asedau Cyfredol <sup>11</sup>	98.6	83.8	105.6	91.4	104	150
Rhwymedigaethau Cyfredol <sup>12</sup>	99.7	92.9	115	88.5	98.3	112
Cymhareb Cyfalaf Gweithio	1.0	0.9	0.9	1.0	1.1	1.3

<sup>11</sup> Mae Asedau Cyfredol yn cynnwys: Buddsoddiadau Tymor Byr; Asedau a gedwir i'w gwerthu; Rhestrau Eiddo; Dyledwyr Tymor Byr; ac Arian Parod a chyfatebol

<sup>12</sup> Mae Rhwymedigaethau Cyfredol yn cynnwys: Benthycia Tymor Byr; Credydwyr Tymor Byr; a Darpariaethau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn.





Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

## Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

Diweddariad Chwarterol: 30 Medi 2021

### Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Archwiliad o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor a'i Gyd-bwyllgorau 2020-21</b>	Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.	Mehefin 2021 hyd at fis Hydref 2021	Derbyniwyd y datganiadau ariannol ar 28 Mai 2021 ac mae'r gwaith maes archwilio bron â'i gwblhau.
<b>Archwiliad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd</b>		Medi 2021 hyd at fis Tachwedd 2021	Derbyniwyd Datganiadau Ariannol ar 16 Mehefin 2021. Mae'r gwaith archwilio wedi dechrau.

### Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Comisiynu Lleoliadau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn</b>	Prosiect sy'n gyffredin i gynghorau y gogledd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a adolygodd sut mae partneriaid yn cydweithio i gomisiynu gofal cartref preswyl a nyrsio yn strategol.	Hydref 2021	Cyhoeddwyd yr ail ddrafft ar 27 Medi. Bydd yr adroddiad lleol terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021.

<b>Gwaith Archwilio Perfformiad 2020-21</b>	<b>Cwmpas</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Statws</b>
<b>Cynaliadwyedd Ariannol</b>	Prosiect sy'n gyffredin i bob cyngor lleol a fydd yn asesu cynaliadwyedd ariannol yng ngoleuni'r heriau presennol a'r heriau a ragwelir yn y dyfodol gan adeiladu ar waith a wnaed yn ystod 2019-20.	Cwblhau	Cyhoeddwyd yr adroddiad lleol terfynol.  Cyhoeddwyd Adroddiad Cryno Cenedlaethol ym mis Medi 2021.
<b>Ffordd Gwynedd</b>	Adolygiad lefel uchel o weithrediad Ffordd Gwynedd yn ystyried cysyniadau, diwylliant a rhwystrau.	Hydref 2020 i Ionawr 2021	Anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr.
<b>Crynodeb Archwilio Blynyddol</b>	Adroddiad blynyddol yn crynhoi'r gwaith archwilio perfformiad ac ariannol a wnaed yn 2020-21, sydd hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol'. Hefyd bellach wedi'i gyfuno â'r Llythyr Archwilio Blynyddol.	Tachwedd/Rhagfyr 2021	Heb ddechrau eto.

2021-22 Gwaith archwilio perfformiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD)</b>	Byddwn yn ceisio integreiddio'r gwaith o gyflawni ein harchwiliadau LICD o gamau i gyflawni amcanion llesiant gyda'n gwaith archwilio arall. Byddwn yn trafod hyn gyda'r cyngor wrth i ni gwmpasu a chyflawni'r prosiectau archwilio a restrir yn y cynllun hwn.	Amh	Amh
<b>Archwiliad adrodd ar welliannau</b>	Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad.	Gorffennaf 2021	Tystysgrif wedi'i gwblhau.
<b>Sicrwydd ac Asesu Risg</b>	<p>Prosiect i nodi lefel y sicrwydd archwilio a/neu lle y gallai fod angen rhagor o waith archwilio yn y dyfodol o ran risgiau i'r Cyngor gan roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.</p> <p>Yng Nghyngor Gwynedd mae'r prosiect yn debygol o ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefyllfa ariannol</li> <li>• Trefniadau hunanasesu</li> <li>• Cynllunio adferiad</li> <li>• Goblygiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)</li> <li>• Cynlluniau lleihau carbon</li> </ul>	Mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022	Parhaus – trefniadau yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i gyflwyno ein canfyddiadau yn y flwyddyn newydd.



2021-22 Gwaith archwilio perfformiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Llamu Ymlaen – Archwilio'r blociau adeiladu ar gyfer dyfodol cynaliadwy</b>	Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn yn edrych ar ba mor effeithiol y mae cynghorau'n cryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwaith o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.	Hydref 2021- Mawrth 2022	Trefniadau gwaith maes yn cael eu gwneud.
<b>Adolygiad o Reoli Perfformiad</b>	Adolygu'r ffordd y mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan alw.	Awst i Tachwedd 2021	Gwaith maes ar y gweill.
<b>Crynodeb Archwilio Blynyddol</b>	Adroddiad blynyddol yn crynhoi'r gwaith archwilio perfformiad ac ariannol a wnaed yn 2021-22, sydd hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol'. Hefyd wedi'i gyfuno â'r Llythyr Archwilio Blynyddol.	Hydref 2022	Heb ddechrau eto.

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio / ar y gweill

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd
<b>Taliadau Uniongyrchol</b>	Adolygiad o sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac yn hybu'r defnydd o daliadau Uniongyrchol	Cyhoeddi - Gaeaf 2021-22	Dod i gasgliadau ganol Hydref, drafftio a chyhoeddi yn gynnar yn 2022	Na – mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Fforwm Taliadau Uniongyrchol a chyfres o gyfweiliadau dilynol
<b>Gwasanaethau Brys</b>	Adolygiad o ba mor dda y mae'r gwasanaethau brys (golau glas) yn cydweithio	Cyhoeddi - gaeaf 2021-22	Drafftio adroddiad	Na
<b>Gwaith dilynol ar Bobl yn Cysgu Allan</b>	Adolygiad o sut yr ymatebodd awdurdodau lleol i anghenion pobl sy'n cysgu allan yn ystod y pandemig yn dilyn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Gorffennaf 2020	I'w gadarnhau	Sefydlu prosiect	Na – mae'r gwaith yn cael ei wneud drwy'r Fforwm Digartrefedd a Chefnogi Pobl
<b>Tlodi</b>	Deall sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn darparu eu gwasanaethau i leihau tlodi.	I'w gadarnhau	Briff y prosiect wedi ei gyhoeddi a chysylltiadau mewn cynghorau'n cael eu coladu	I'w gadarnhau

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd
<b>Mentrau Cymdeithasol</b>	Adolygiad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn defnyddio mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau	I'w gadarnhau	Briff y prosiect wedi'i gyhoeddi a chysylltiadau mewn cynghorau'n cael eu coladu	I'w gadarnhau
<b>Cydnherthedd Cymunedol</b>	Adolygiad o sut y gall awdurdodau lleol feithrin mwy o gydnherthedd mewn cymunedau	I'w gadarnhau	Briff y prosiect wedi'i gyhoeddi a chysylltiadau mewn cynghorau'n cael eu coladu	I'w gadarnhau

## Estyn

Gwaith arfaethedig Estyn 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
Arolygu Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol	Gweithiodd Estyn yn agos gyda Chyfarwyddwyr Addysg i adolygu eu canllawiau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol i adlewyrchu profiadau'r pandemig. Bydd y canllawiau diwygiedig (a gyhoeddwyd ar 1 Gorffennaf) yn cael eu treialu ar adeg yr arolygiad cyntaf a gofynnir am adborth ynghylch a oes angen rhagor o fireinio.	Arolygiadau Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol i aildddechrau o ddiwedd tymor yr Hydref	Amherthnasol
Adolygiad thematig Diwygio'r Cwricwlwm	Cymorth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddiwygio'r cwricwlwm.	Casglu tystiolaeth ym mis Medi/Hydref - cyhoeddi ddechrau mis Chwefror	Amherthnasol

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Gwaith arfaethedig AGC 2021-22	Cwmpas	Amserlen	Statws
<b>Sicrwydd</b>	Bydd AGC yn cwblhau ei waith ar Wiriadau Sicrwydd gan gynnwys cyhoeddi adroddiad trosolwg cenedlaethol.	Gorffennaf – Medi 2021	Ar y gweill
<b>Adolygiad cenedlaethol</b>	Cymorth i blant anabl a'u teuluoedd.	I'w gadarnhau	Ar y gweill – Drafftio adroddiad
<b>Gwaith dilynol</b>	Bydd AGC yn gwneud gwaith dilynol ar feysydd i'w gwella a nodwyd yn y Gwiriadau Sicrwydd neu drwy weithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg gydag awdurdodau lleol unigol lle bo angen.	I'w gadarnhau	Heb ddechrau eto
<b>Arolygiad</b>	Bydd gweithgareddau arolygu sy'n seiliedig ar risg yn parhau lle bo angen.	I'w gadarnhau	Nid oes unrhyw arolygiadau wedi'u trefnu ar hyn o bryd

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ers 1 Ebrill 2021

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a doleri'r adroddiad
Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol	<a href="#">Medi 2021</a>
Ffeithlun cyfrifon cryno'r GIG	<a href="#">Medi 2021</a>
Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus <sup>1</sup>	<a href="#">Medi 2021</a>
Adfywio Canol Trefi	<a href="#">Medi 2021</a>
Cyllid myfyrwyr	<a href="#">Awst 2021</a>
Offeryn data cyllid y GIG 2020-21	<a href="#">Mehafin 2021</a>
Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru	<a href="#">Mehafin 2021</a>
Trefniadau llywodraethu ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf – gwaith dilynol	<a href="#">Mai 2021</a>
Trefniadau llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru	<a href="#">Mai 2021</a>
Yn Ôl Eich Doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol	<a href="#">Ebrill 2021</a>

<sup>1</sup> Cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi. I'w ddilyn dros y pedair i chwe wythnos ganlynol gan sylwadau byr y sector: Darlun o lywodraeth leol, Darlun o ofal iechyd, Darlun o ofal cymdeithasol, Darlun o ysgolion, Darlun o addysg uwch ac addysg bellach.

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a doleri'r adroddiad
Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19	<a href="#">Ebrill 2021</a>

## Adroddiadau cenedlaethol ac allbynnau eraill gan Archwilio Cymru sydd i'w cyhoeddi yn ystod 2021-22 (a gwaith arall sy'n mynd rhagddo / a gynlluniwyd)<sup>2</sup>

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwylidig
Cefnogi lles staff y GIG	Hydref 2021
Rhaglen Cartrefi Cynnes	Tachwedd 2021
Comisiynu cartrefi gofal	Tachwedd 2021
Sylwadau ar gyfrifon Llywodraeth Cymru	Tachwedd 2021
Gofal heb ei drefnu – offeryn data a sylwadau	Erbyn diwedd 2021
Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol	Erbyn diwedd 2021
Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwadau ar ofal wedi'i gynllunio	Erbyn diwedd 2021

<sup>2</sup> Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Mae hyn yn cynnwys cynnal rhywfaint o hyblygrwydd fel y gallwn ymateb i ddatblygiadau ym meysydd polisi Llywodraeth Cymru a meysydd sydd o ddiddordeb posibl i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd.

Teitl	Dyddiad cyhoeddi disgwyliedig
<b>Amcanion llesiant a bennir gan Lywodraeth Cymru</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Gweithlu Llywodraeth Cymru</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Gwasanaethau orthopedig</b>	Erbyn diwedd 2021
<b>Diwygio'r cwricwlwm</b>	Gwanwyn 2022
<b>Asesiad effaith ar gydraddoldeb</b>	Gwanwyn 2022
<b>Newid hinsawdd – adolygiad sylfaenol</b>	Gwanwyn/haf 2022
<b>Ymateb ac adferiad COVID / Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru</b>	I'w gadarnhau
<b>Sylwadau cryno ar asesiad strwythuredig y GIG 2021</b>	I'w gadarnhau
<b>Tai fforddiadwy</b>	I'w gadarnhau
<b>Seilwaith band eang</b>	I'w gadarnhau
<b>Rheoli perygl llifogydd</b>	I'w gadarnhau



## Digwyddiadau a chyhoeddiadau Cyfnewid Arfer Da sydd ar ddod

Teitl	Dyddiad cyhoeddi/digwyddiad disgwylidig
<b>Adnoddau ar ôl y digwyddiad gan gynnwys recordiadau sesiwn ar gyfer digwyddiad adfywio canol tref Rhan 2 Eich Tref Eich Dyfodol a sesiwn cinio a dysgu Gweithle'r Dyfodol gyda Dr Luci Attala a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</b>	Dechrau Hydref 2021
<b>Sgyrsiau Trawsatlantig, Cymru a Nova Scotia – trafod Tai</b>	28 Hydref 2021 (3pm)
<b>Cydnherthedd Sefydliadol</b>	Rhagfyr 2021 (dyddiad i'w gadarnhau)

# Eitem 9

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>18 Tachwedd 2021</b>
<b>TEITL</b>	<b>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru) 2021</b>
<b>Amcan</b>	<b>Diweddarau y Pwyllgor ar y cynnydd yn y rhaglen waith a newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor.</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>Derbyn yr adroddiad a cytuno ar yr argymhelliad ynglŷn a maint y Pwyllgor i'r dyfodol.</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Swyddog Monitro</b>

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Bydd y pwyllgor yn cofio i mi adrodd ar y rhaglen waith arfaethedig er gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad( Cymru) 2021. Roedd nifer o gamau gweithredu yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf. Yn dilyn Cydsyniad Brenhinol bydd y darpariaethau yn parhau i ddod i rym drwodd i 2022. Gall fod rhai darpariaethau yn cael eu gweithredu ar ddyddiadau hwyrach bel mae gofyn am reoliadau.

## 2. Y Ddeddf

2.1 Derbyniodd y Ddeddf Gyd-Syniad brenhinol ar yr 20fed o Ionawr 2021 . Mae naw prif ran i'r Ddeddf sydd yn berthnasol i Brif Gyngorau Cyngorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau eraill.

RHAN 1 - ETHOLIADAU

RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL I AWDURDODAU LLEOL

RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL

RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

RHAN 6 – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU

RHAN 7 – UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

RHAN 8 – CYLLID LLYWODRAETH LEOL

RHAN 9 – AMRYWIOL

## 3. Rhaglen Waith

Mae'r Deddf eisoes wedi ei gosod o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd ei arwyddocâd. Mae'r Rhaglen Waith ( Atodiad 1) yn ymwneud ag ystod o dasgau sydd yn bennaf ynglŷn a'r Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r Rhaglen waith yn rhoi trosolwg a sicrwydd ar y gweithredu ac tu cefn i hyn mae gwaith cyson manwl yn parhau i ddod a'r darpariaethau yma yn weithredol.

## 4. Newidiadau Cyfansoddiadol

Mae newidiadau penodol i swyddogaethau a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o fewn y Ddeddf.:

- Newidir enw y Pwyllgor i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Mae'n ysgwyddo rôl ynglŷn a trefniadau cwynion
- Rhoddir swyddogaethau y penodol ynglŷn a'r trefniadau rheoli perfformiad newydd yn Rhan 6 o'r Ddeddf
- Byd gofyn newid aelodaeth y Pwyllgor o Fai 2022 Er sicrhau fod 1/3 yr aelodaeth yn aelodau lleyg.
- Rhaid penodi y cadeirydd o blith yr aelodau lleyg.

Mae'r newidiadau a nodir yn statudol ac yn cymryd effaith o'r dyddiad a nodir yn y Rhaglen Waith. Mae Atodiad 2 yn dangos y prif newidiadau i'r Cyfansoddiad rwy'n bwriadu eu gweithredu o dan paragraff 2.6.3 o'r Cyfansoddiad

### **2.6.3 Newid Deddfwriaethol**

Caiff y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad lle y mae diwygiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth deddfwriaethol. Bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym pan fydd y Swyddog Monitro yn penderfynu felly neu pan fydd y deddfwriaeth (lle y bo'n berthnasol) yn darparu ar gyfer hynny. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er gwybodaeth.

Mae'r gofyn ar gyfer aelodau cadeirydd lleyg (fydd yn weithredol ym Mai 2022) angen ei ymgorffori yn y Cyfansoddiad i ddod yn weithredol ar yr amser priodol. Esgor hyn ar gwestiwn ynglŷn a maint priodol y pwyllgor. Ar hyn o bryd mae 18 aelod o'r Pwyllgor ynghyd ag 1 aelod lleyg. Ar y sail yma byddai 6 aelod lleyg a 12 aelod etholedig ar y Pwyllgor o Fai 2022.

Cychwynnwyd ar y broses ar gyfer penodi aelodau lleyg eisoes. Golygai hyn gymryd rhan mewn ymgyrch hysbysebu gan CLILC. Sefydlwyd y drefn penodi gan y Cyngor yn 2017. Fodd bynnag cyn y gellir cwblhau y broses mae angen penderfyniad ar faint cyfansawdd y pwyllgor i'r dyfodol.

Mae nifer o opsiynau wrth gwrs. Fodd bynnag a chan ddal sylw at faint Pwyllgorau Craffu ymddengys fod 18 yn parhau yn ffigwr priodol er parhau. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer aelodaeth y Cyngor byddai hyn yn caniatáu 12 aelod etholedig. Fodd bynnag ceisir barn y Pwyllgor.

### **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- 1. Cymeradwyo y cynnydd yn y Rhaglen Waith a cheisio diweddariad ar gyfer cyfarfod Mis Chwefror.**
- 2. I argymhell maint aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor i fod yn weithredol o 5 Mai 2022.**
- 3. I nodi y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad i'w cyflawni gan y Swyddog Monitro.**

**Atodiad 1**

(Cyng. = Cyngor Lawn , Cab=Cabinet , PALL = Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, PGD =Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd PS= Pwyllgor Safonau)

Darpariaethau	Disgrifiad	Dod i Rym	Swyddog Cyfrifol	Camau Paratoi / Adnoddau	Amserlen	Statws
Tud. 67	<p><b>Rhan 1 Etholiadau</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Ymestyn yr Etholfraint i oedran 16 i fyny ac hefyd pleidleiswyr tramor cymwys . Dyletswydd i godi ymwybyddiaeth o'r hawl.</li> <li>Hawl i swyddogion Cyngor sefyll etholiad heb ofyn iddynt ymddiswyddo os nad ydynt yn llwyddiannus ( eithrir swyddogion mewn swyddi gwleidyddol gyfyngedig) .</li> <li>Hawl i Gyngor ddewis trefn Pleidleisio Mwyafrifol neu STV.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1 a 2 eisoes mewn grym (ar gyfer etholiadau Mai 2022)</li> <li>3. Mai 2022</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1,2 -Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol(Swyddog Monitro)</li> <li>3. Prif Weithredwr.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1- Mae Tîm Prosiect traws adrannol mewn lle a swyddog wedi ei phenodi i ymgymryd a gwaith cyd-gordio ac ymgysylltu ynghyd ag elfennau eraill gyda grant y Llywodraeth.</li> <li>2 - Mae gwaith codi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r ddarpariaeth statudol ynglŷn a phwy sydd yn gymwys ac anghymwys i sefyll wedi cychwyn . Mae hyn ar y cyd gyda Gwasanaeth Democraatiaeth a laith,</li> <li>3- Gellir adrodd yn benodol ar hyn i'r Cyngor newydd wedi i'r pŵer ddod i rym yn Mai 2022</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1 a 2 Parhaol hyd cyfnod etholiad Mai 2022</li> <li>3- Dim angen gweithredu hyd wedi Mai 2022.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1 - Mae'r gwaith yma yn seiliedig ar hyrwyddo ac ymgysylltu yn arbennig felly gyda'r oedran Cyfnod Allweddol 4 a 5 . Mae sefyllfa COVID yn golygu fod y rhaglen hyrwyddo yn parhau yn heriol . Gyda cyfleon i fynychu sefydliadau addysg yn gyfyng rydym yn edrych ar ffyrdd eraill o gyfathrebu ac hyrwyddo.</li> <li>2- Yn cael ei gyflawni.</li> </ol>
<p><b>Rhan 2 Pennod 1 Pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol</b></p>	<p>Rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Brif Gyngor a rhai Cyngorau Tref a Chymuned Cymwys. Mae Cyngor yn ddibynnol ar hawl statudol i wneud unrhyw weithgaredd. Mae'r ddarpariaeth yma yn rhoi pŵer cyffredinol i weithredu heb ei gyfyngu i swyddogaeth benodol.</p>	<p>Tachwedd 2021</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ( Swyddog Monitro)</p>	<p>Nodyn Briffio Penaethiaid Adrannau</p>	<p>30 Medi 2021</p>	<p>Nodyn briffio a chyflwyniad wedi ei ddarparu i Benaethiaid Adrannau.</p>

<p style="text-align: center;"><b>Tud. 68</b></p> <p><b>Rhan 3 Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol,</b></p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Hawl i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar sail “hybrid” a rhithiol ond mae angen mabwysiadu Polisi</li> <li>2. Rhoi hawl mynediad o bell gan aelodau ar sail statudol</li> <li>3. Ymgorffori newidiadau i faterion megis cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd ac ymdrin a materion megis cyhoeddi penderfyniadau.</li> <li>4. Dyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd mewn materion megis penderfyniadau</li> <li>6. Gofyn i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad</li> <li>7. Gofyn i fabwysiadu Cynllun Deisebau</li> <li>8. Gosod gofyn statudol i we ddarlledu ystod o gyfarfodydd.</li> <li>9. Gofyn cyhoeddi Canllawiau i’r Cyfansoddiad</li> </ol>	<p>1,2,3 Mai 1 2021</p> <p>4- 9 Mai 2022</p>	<p>1-2 a 4- 8 Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</p> <p>3 a 9 Swyddog Monitro</p>	<p>1 a 2 Gwasanaeth Democratiaeth a laith yn paratoi Polisi ar gyfer trefniadau cyfarfodydd i’w mabwysiadu gan y Cabinet a’r Cyngor Llawn</p> <p>Swyddog Monitro i arwain ar adolygu Cyfansoddiad a pharatoi Canllawiau .</p>	<p>Adrodd i Cabinet a PGD Mis Tachwedd Ar gyfer Cyngor 2 Rhagfyr 2021</p> <p>4- 7 – Disgwylir Arweiniad Statudol ar y gofynion .</p> <p>8. Mae gweithredu yn ddarostyngedi g i gyhoeddi rheoliadau fydd yn diffinio natur y gofyn.</p> <p>9. Adrodd i Gyngor Mawrth 2022</p>	<p>1 a 2 Bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno yn unol a’r amserlen.</p> <p>3. Mae’r addasiadau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol a hybrid wedi eu hymgorffori yn y Cyfansoddiad. Bydd unrhyw newidiadau yn deillio o’r agweddau eraill yn cael eu hymgorffori wrth i’r darpariaethau gael eu sefydlu.</p> <p>9. Mae Templed Canllawiau o’r Cyfansoddiad yn cael ei ddatblygu yn genedlaethol gyda CLIC a chyfreithwyr arbenigol allanol.</p>
<p><b>Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol</b></p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Sefydlu swydd dan y disgrifiad “Prif Weithredwr” ar sail statudol gyda cyfrifoldebau penodol.</li> <li>2. Caniatáu penodi aelodau fel cynorthwyon Aelodau Cabinet</li> <li>3. Cynnwys darpariaeth rhannu swyddi aelodau Cabinet o fewn trefniadau Cabinet.</li> <li>4. Caniatáu rhannu swyddi Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion</li> <li>5. Arweinyddion Grwpiau a chyfrifoldeb statudol am ymddygiad eu haelodau</li> <li>6. Gosod adroddiad Blyneddol Pwyllgor Safonau i’r Cynghorau ar sail statudol.</li> </ol>	<p>Mai 2022.</p>	<p>1. Pennaeth Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</p> <p>2,3,4 Sywddog Monitro</p> <p>5 a 6 Swyddog Monitro</p>	<p>1- Addasu swydd ddisgrifiad y Prif Weithredwr.</p> <p>2- 3 Addasu y Cyfansoddiad i adlewyrchu y ddarpariaeth a sefydlu trefniadau. Ar y cyd rhwng y Swyddog Monitor a gwasanaethau Democratiaeth a laith.</p> <p>4 - Gweithredu yn ddarostyngedig ar reoliadau yn dod ‘ar ddarpariaeth i rym.</p> <p>5 - Adroddiad ar y ddarpariaeth wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Safonau – Camau i</p>	<p>Mai 2022</p>	<p>1 - Mae Swydd ddisgrifiad y Prif Weithredwr eisoes yna adlewyrchu y newid.</p> <p>2- 3 Addasiadau drafft wedi eu cyflwyno i’r PALI Tachwedd 2021</p> <p>5- Mae’r ymgysylltu wedi llithro. Bwriedir cynnal y cyfarfodydd hyrwyddo gyda aelodau’r Pwyllgor erbyn diwedd Rhagfyr 2021.</p>

				<p>godi ymwybyddiaeth ymysg arweinyddion grwpiau a cynhyrchu Protocol ar hyrwyddo y dyletswydd.</p> <p>6- Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn</p>		
Tud. 69	<p><b>Rhan 5 Cydweithio gan Brif Gyngorau</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Pŵer gweinidogion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig ("CJC's") . Mae'r rhain yn fath newydd o gorff llywodraeth leol. Byddent yn gorfforaethau gyda statws cyfreithiol eu hunain.</li> <li>2. Arweinyddion y Cyngorau fydd aelodau craidd</li> <li>3. Pŵer mandadu – Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Llesiant Economaidd a Gwella Ysgolion.</li> <li>4. Rheoliadau wedi eu cyhoeddi yn sefydlu CBC ar gyfer Gogledd Cymru fydd yn ymdrin a Cynllun Datblygu Strategol, Cynllun Trafnidiaeth Strategol a pŵer Llesiant Economaidd, y swyddogaethau yn weithredol o Mehefin 2022.</li> <li>5. Hawl gan 2 neu fwy o gynghorau wneud cais i sefydlu drwy offeryn statudol.</li> </ol>	Mewn grym	<p>Mae Gwynedd fel Awdurdod Lletyol Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn arwain ar brosiect i ymateb i'r drefn newydd yma .Bydd rhaglen waith ac adrodd yn ôl yn deillio o'r gwaith yma. Arweinir y Prosiect gan yr Arweinyddion a Prif Weithredwyr ar lefel rhanbarthol.</p>	<p>Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth Deddf.</p> <p>Adrodd ar oblygiadau rheoliadau sefydlu i Cabinet a Phwyllgorau Craffu</p>	<p>I'w sefydlu ond bydd angen i'r CBC fod yn weithredol ar gyfer 2022 oherwydd y gofynion cyllidol..</p>	
	<p><b>Rhan 6 Perfformiad a Llywodraethu Prif Gyngorau a Dyletswydd Prif Gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Sefydlu cysyniad o adroddiad perfformiad blynyddol statudol ac ymgynghori fel rhan o'r broses</li> <li>2. Apwyntio "Panel" ar gyfer cynnal asesiad perfformiad Cyngor -</li> <li>3. Angen am osod Amcanion Gwella ( Gwerth Gorau) yn cael ei ddileu</li> <li>4. Gofyn fod i 1/3 aelodau y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn aelodau lleyg gan gynnwys y Cadeirydd -</li> <li>5. Sefydlu ac enwi Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bellach yn statudol</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mewn grym</li> <li>2. Mai 2022</li> <li>3. Mewn Grym</li> <li>4. Dod i rym Mai 2022</li> <li>5,6 Mewn Grym</li> </ol>	<p>Prif Weithredwr a Pennaeth Cyllid o ran trefniadau y Pwyllgor Archwilio</p> <p>4- Cychwyn ar broses penodi aelodau lleyg ar gyfer y Pwyllgor. Adroddiad i PALI a Chyngor Rhagfyr gyda argymhellion</p>	<p>Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth Deddf. PALI i arwain</p>	<p>1,2 Adroddiad PALI a Cabinet Gorffennaf 2021</p> <p>5 a 6 adrodd Cyngor fel rhan o raglen diwygiadau Cyfansoddiad.</p>	

	6. Pwyllgor Archwilio a Lywodraethu yn mabwysiadu swyddogaeth trosolwg trefniadau cwynion		ar gyfer maint y Pwyllgor ynghyd a phenodi aelodau lleyg gogyfer Mai 2022. Swyddog Monitro i addasu y Cyfansoddiad i adlewyrchu y newidiadau a gytunir.  Swyddog Monitro i weithredu newidiadau Cyfansoddiad 5 a 6 gan eu bod yn ofyn statudol.			
<b>Rhan 7 – Uno ac Aistrwythuro Prif Ardaloedd</b>	Sefydlu fframwaith ar gyfer proses uno cynghorau pe fyddai cynllun o'r fath yn dod ymlaen.	Mai 2022	Prif Weithredwr	Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth er gwybodaeth	Eisoes wedi digwydd	
<b>Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol</b>	1. Pwerau i fynnu gwybodaeth yn ymwneud â hereditamentau, gwybodaeth sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw person yn atebol i dalu trethi annomestig, 2. Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer Carcharu Dyledwyr y Dreth Gyngor sydd yn ymgorffori mewn Deddf yr hyn sydd eisoes yn weithredol drwy Reoliadau.	Mewn Grym	Pennaeth Cyllid	Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth er gwybodaeth	Eisoes ar waith	
<b>Rhan 9 – Amrywiol</b>	1. Rhoi statws gwarchodaeth prif swyddog statudol i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. 2. Diddymu y rhwystr ar Swyddog Monitro rhag bod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. 3. Darpariaethau ynglŷn ag uno a dad-uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.	Mai 2022	Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol  Swyddog Monitro – cymryd camau i addasu y Cyfansoddiad.	Mae angen addasu Rhan 11 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu y newidiadau – Gwneir hyn ar gyfer Cyngor Mis Mawrth 2022	Adroddi Gyngor Rhagfyr 2il 2021	Adroddiad PALLI yn cynnwys manylion y newidiadau arfaethedig

## ATODIAD 2

### 9.2 Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

9.2.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn ac yn unol ag adrannau 81-87 y Mesur.

9.2.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys ???? Aelod sy'n Gynghorwyr ( sef dwy ran o dair o'r Aelodaeth) a rhaid fod un rhan o dair (????) yn aelodau lleyg a dim mwy nag un Aelod o'r Cabinet neu gynorthwydd Cabinet ( mae'n dderbyniol cael dim un) (ni chaiff yr Aelod o'r Cabinet fod yr Arweinydd).

9.2.3 Penodir Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ganddo. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg ac ni chaiff ef/hi fod yn Aelod neu gynorthwydd o'r Cabinet ond caiff fod yn Aelod lleyg, a chaiff fod yn Aelod o grŵp gweithredol dim ond os nad oes grwpiau gwrthblaid.

9.2.3 Mae cyfarfod o bwyllgor llywodraethu ac archwilio i'w gadeirio—

(a) gan gadeirydd y pwyllgor, neu

(b) os yw cadeirydd y pwyllgor yn absennol, gan y dirprwy gadeirydd.

(c) os yw cadeirydd y pwyllgor a'r dirprwy gadeirydd ill dau yn absennol caiff y pwyllgor benodi aelod o'r pwyllgor nad yw'n aelod o'r Cabinet , nac yn gynorthwydd i'r Cabinet , i gadeirio'r cyfarfod."

9.2.4 Caiff holl Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bleidleisio ar unrhyw fater gerbron y Pwyllgor.

## ADRAN 13 RHAN 1

### PWYLLGOR A LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

- Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Adran 9 y Cyfansoddiad.
- Mae'r tablau isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (sef swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i Weithrediaeth awdurdod) sydd wedi eu dirprwyo i'r pwyllgor. Mae'r penawdau, rhifau a llythrennau yn cyd-fynd gyda'r hyn sydd yn y Rheoliadau.
- Yn y drydedd golofn nodir os yw swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i brif swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r prif swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad am yr hawl i weithredu yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn Atodiad 3 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad.



Swyddogaethau na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth.

#### FF. Swyddogaethau Amrywiol

Swyddogaeth	Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol	Dirprwyo - (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion)
1. Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd).	Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.	

#### Swyddogaethau o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011( fel y diwygwyd) :

- (a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,
- (b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,
- (c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol **asesu perfformiad** a llywodraethu corfforaethol,
- (ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
- (d) **I adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol**
- (e) **I lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas a gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol.**
- (f) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac
- (g) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.
- (h) **Gweithredu swyddogaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodreath Leol ac Etholiadau (Cymru ) 2021 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodrethu).**

#### Swyddogaethau Eraill.

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

- (i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;
- (ii) canolbwyntion adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

- (iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;
- (iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor, y Comisiwn Archwilio neu'r Archwiliwr Dosbarth a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau'r adroddiadau;
- (v) adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu , trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu a'r swyddogaethau a gyflawnir gan yr Adran Gyllid, yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a'r Tim Arweinyddiaeth.